COLEG BARNWROL

CARDIAU CYHOEDDIADAU - LLYS OEDOLION

Diweddarwyd ym mis Medi 2020

Cynnwys

Dedfrydu: 1

Gorchymyn ymddygiad troseddol	1	Rhyddhad - diamod	10
Gorchymyn cymorth unigol	2	Rhyddhad - amodol	10
Gorchymyn cymunedol	3	Gwaharddiad - cyffredinol	11
Gofynion gorchymyn cymunedol	5	Cyrsiau adsefydlu ar ôl yfed a gyrru	12
Dedfryd o garchar	7	Gwaharddiad – dros dro	13
Oedi dedfryd	9	Gwaharddiad – hyd nes pasio'r prawf	14

CYNNWYS

Dedfrydu: 1 (parhad)

Cosbau ariannol: 15
• iawndal a dirwy 15
Gorchmynion Ategol: 15
• gordal a chostau 15
Gorchymyn ysbyty 17
Gorchymyn atgyfeirio 18
Gorchymyn dedfryd ohiriedig 19
Gofynion gorchymyn dedfryd ohiriedig 21

Achosion gohirio: 2

Gohirio er mwyn derbyn adroddiadau meddygol 23
Gorchymyn ysbyty dros dro 24
Gohirio er mwyn derbyn adroddiadau cyn-dedfrydu 25
Mechnïaeth ddiamod 26
Mechnïaeth amodol 27
Remandio yn y ddalfa cyn collfarnu (troseddau ditiadwy a neillffordd) 29
Remandio yn y ddalfa ar ôl collfarnu (troseddau ditiadwy a neillffordd) 29b
Remandio yn y ddalfa cyn collfarnu (troseddau diannod gyda'r opsiwn i garcharu) 30
Remandio yn y ddalfa ar ôl collfarnu (troseddau diannod gyda'r opsiwn i garcharu) 30b
Remandio yn y ddalfa cyn collfarnu (troseddau heb opsiwn i garcharu) 31
Remandio yn y ddalfa ar ôl collfarnu (troseddau heb opsiwn i garcharu) 31a

CYNNWYS

Achosion gohirio: 2 (parhad)

Remandio i lety gan yr awdurdod lleol:
- (troseddau ditiadwy a neillffordd) 32
- (troseddau diannod gyda'r opsiwn i garcharu) 33
- (troseddau heb opsiwn i garcharu) 34

Remandio i lety cadw ieuenctid:
- Cyfres 1af o amodau (troseddau ditiadwy a neillffordd) 35
- (troseddau diannod gyda'r opsiwn i garcharu) 36
- 2il gyfres o amodaus (troseddau ditiadwy a neillffordd) 37
- (troseddau diannod gyda'r opsiwn i garcharu) 38

Achosion i'w gwrando yn Llys y Goron: 3

Anfon am dreial 39

Traddodi ar gyfer dedfryd 40

Troseddau rhywiol: 4

Gofynion hysbysu (gohirio) 41

Gofynion hysbysu (wrth ddedfrydu) 43

Gorchymyn hysbysu (troseddau a gyflawnwyd y tu allan i'r DU) 45

Gorchymyn risg rhywiol 47

Gorchymyn atal niwed rhywiol 48

CYNNWYS

Cyfyngiadau ar adrodd: 5

Troseddau rhywiol 49

Cyfyngiadau ar adrodd yn achos plant a phobl ifanc mewn achosion troseddol 50

Cyfyngiadau ar adrodd yn achos plant a phobl ifanc mewn achosion di-droseddol 51

Cyfyngiadau gydol oes ar adrodd yn achos dioddefwyr a thystion o dan 18 oed 52

Osgoi risg o ragfarn sylweddol i weinyddu cyfiawnder 53

Dal gwybodaeth yn ôl oddi wrth y cyhoedd er budd gweinyddu cyfiawnder 54

Gorchmynion ategol - cyffredinol: 6

Rhwymo 55

Gorchymyn cau allan – eiddo trwyddedig 56

Gorchymyn gwahardd pêl-droed 57

Gorchymyn rhianta (methu ag anfon plentyn i'r ysgol) 59

Gorchymyn atal 60

Gorchymyn Difa Amodol (Cŵn a Waherddir - Deddf Cŵn Peryglus 1991) 61

Gorchymyn Difa Amodol (Cŵn heb eu gwahardd - Deddf Cŵn Peryglus 1991) 63

Cadw ci dan reolaeth briodol (Deddf Cŵn 1871) 65

Gwaharddiad rhag cadw ci (Deddf Cŵn Peryglus 1991) 66

Gwaharddiad rhag cadw unrhyw anifail / anifeiliaid o fath(au) penodol (Deddf Lles Anifeiliaid 2006) 67

Gorchymyn ymddygiad troseddol

Rydym yn gwneud gorchymyn ymddygiad troseddol yn yr achos hwn am [……. blynedd][hyd nes y gwneir gorchymyn pellach].

Rydym yn fodlon eich bod wedi ymddwyn mewn ffordd sydd wedi neu sy'n debygol o achosi aflonyddwch, braw neu drallod ac ystyriwn y bydd gwneud gorchymyn yn eich helpu i beidio ag ymddwyn felly.

Rydym yn gwneud y gorchymyn hwn oherwydd ……..

Tra byddwch ar y gorchymyn hwn rhaid i chi:

[Nodwch y gweithredoedd a waherddir.]

[Nodwch y gweithredoedd sy'n ofynnol.]

Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r gorchymyn hwn byddwch yn cyflawni trosedd difrifol ac efallai'n gorfod mynd i garchar.

Ydych chi'n deall?

Rhaid i chi aros am gopi o'r gorchymyn cyn i chi adael adeilad y llys.

Gorchymyn cymorth unigol (i rai 10-17 oed yn unig)

Rydym hefyd yn gwneud gorchymyn cymorth unigol am gyfnod o…….. mis (6 ar y mwyaf) oherwydd dylai hyn eich helpu i beidio ag ymddwyn mewn ffordd wrthgymdeithasol yn y dyfodol.

Yn ystod yr amser hwn rhaid i chi ……
[Egluro'r gofynion fel yr amlinellir hwynt gan y Tîm Troseddwyr Ifanc.]

Rhaid i chi wneud beth mae'r swyddog cyfrifol yn ei ddweud. Os na wnewch hyn, gallech orfod dod yn ôl i'r llys a thalu dirwy, neu wynebu cosb arall.

Gallwch chi neu eich swyddog wneud cais i'r llys hwn i adolygu'r gorchymyn.

Gorchymyn cymunedol

1. **Mae'r trosedd(au) o …….. yn ddigon difrifol i ni wneud gorchymyn cymunedol.** [neu]
2. **Mae'r trosedd(au) o …… mor ddifrifol fel y gellid bod wedi gwneud dedfryd o garchar. Fodd bynnag, rydym yn gwneud gorchymyn cymunedol.**

Bydd hwn yn para am ……. mis ac yn gorffen ar ..... Bydd yn rhaid i chi gydymffurfio â'r gofyniad / gofynion canlynol:

[Nodwch beth yw'r gofynion.]

[Gallai'r gofynion orffen ar wahanol ddyddiadau. Drosodd, yn nhrefn y wyddor, eglurir pob un o'r gofynion. Dalier sylw: Rhaid cael caniatâd y troseddwr ar gyfer unrhyw ofyniad triniaeth.]

Os torrwch unrhyw ofyniad neu os collfarnir chi am drosedd arall tra byddwch ar eich gorchymyn, bydd eich dedfryd yn cael ei chynyddu neu gallwch gael eich ail-ddedfrydu a gallai olygu mynd i'r carchar.

Rhaid i chi roi gwybod i'ch goruchwyliwr os dymunwch newid eich cyfeiriad a chael eu caniatâd i wneud hynny. Os na fydd eich goruchwyliwr yn cytuno y gallwch newid cyfeiriad, bydd angen i chi wneud cais i'r llys. Os byddwch yn symud tŷ heb ganiatâd eich goruchwyliwr neu'r llys, byddwch yn torri eich gorchymyn a gallwch orfod dod yn ôl i'r llys.

Os na allwch fynychu apwyntiadau oherwydd salwch, bydd angen ichi ddangos tystysgrif feddygol i'ch goruchwyliwr. Os na wnewch hyn, byddwch yn torri rheolau'r gorchymyn hwn.

Os bydd eich amgylchiadau'n newid, gallwch ofyn i'r llys adolygu'r gorchymyn.

Rydym yn gwneud y gorchymyn, oherwydd...

[Lle bo'n berthnasol.] **Rydym wedi lleihau eich dedfryd oherwydd eich bod wedi pledio'n euog. Pe baech heb wneud, byddai eich dedfryd wedi bod yn ……..**

[Lle bo'n berthnasol, ystyriwch unrhyw orchymyn ategol, iawndal a/neu waharddiad.]

Gorchymyn cymunedol

Triniaeth alcohol – Byddwch yn derbyn triniaeth [breswyl] [dibreswyl] dan gyfarwyddyd Dr …….am gyfnod o ..... Ydych yn cytuno i'r gofyniad hwn?

Canolfan ymbresenoli – Rhaid i chi fynd i'r ganolfan fynychu y bydd eich swyddog cyfrifol yn eich cyfarwyddo i fynd iddi. Rhaid i chi gwblhau cyfanswm o ..... awr ar y dyddiau a benodir gany swyddog sydd yng ngofal y ganolfan.

Cyrffyw – Rhaid i chi aros yn [rhowch y cyfeiriad] rhwng yr oriau …… ar y diwrnodau canlynol …… Bydd tag electronig yn cael ei ffitio arnoch gan y cwmni monitro yn eich cyfeiriad cartref, yn ystod oriau cyrffyw. Bydd y gorchymyn yn para am …… mis/wythnos/diwrnod ac yn gorffen am ..... ar …… Ni ddylech ymyrryd â'r tag nac ychwaith â'r uned reoli.

Adsefydlu defnyddwyr cyffuriau – Rydym yn bwriadu ichi gael triniaeth [breswyl] [amhreswyl] dan gyfarwyddyd …… a darparu samplau i'w profi yn ôl y gofyn am gyfnod o …… Bydd y llys yn adolygu hyn ar …… a bydd yn rhaid ichi ddod i'r llys yr adeg honno. A ydych yn cydsynio â'r gofyniad hwn?

Gwahardd teithio dramor – Ni chewch deithio i unrhyw wlad y tu allan i Ynysoedd Prydain [ar ……] [am gyfnod o ……]

[Ar gyfer gofynion ymwrthod ag yfed alcohol, gwahardd rhag mynd i ardal benodol a monitro presenoldeb gweler tudalen 6a]

Triniaeth iechyd meddwl – Byddwch yn derbyn triniaeth [breswyl] [di-breswyl] dan gyfarwyddyd Dr ……. am gyfnod o ..... tan ..... [rhowch y dyddiad]. Ydych yn cytuno i'r gofyniad hwn?

Rhaglen – Rhaid i chi gymryd rhan mewn rhaglen yn ôl cyfarwyddyd eich goruchwyliwr am gyfnod o …… diwrnod.

Gweithgaredd gwaharddedig – Ni chewch ……. [am gyfnod o .....] [ar y diwrnodau canlynol …….] tan ……[rhowch y dyddiad].

Gweithgaredd adsefydlu – Byddwch dan oruchwyliaeth swyddog cyfrifol ac yn ystod y cyfnod goruchwylio bydd rhaid ichi ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau a roddir ichi ynghyd â mynychu pob apwyntiad. Hefyd, bydd rhaid ichi gwblhau i fyny at [……] diwrnod o weithgaredd fel y cyfarwyddir gan eich swyddog cyfrifol.

Preswylfan – Rhaid i chi fyw yn …… tan ..…… [lle bo'n berthnasol] hyd nes y bydd eich swyddog cyfrifol yn cytuno y gallwch fyw mewn cyfeiriad gwahanol.

Gwaith di-dâl – Rhaid i chi wneud …….. awr o waith di-dâl yn y gymuned fel y mae eich swyddog cyfrifol yn ei gyfarwyddo. Rhaid cwblhau hyn erbyn ……..…… [rhowch y dyddiad].

Gofynion gorchymyn cymunedol – ymwrthod ag yfed alcohol, gwahardd rhag mynd i ardal benodol a monitro presenoldeb

Ymwrthod ag yfed alcohol a monitro – Ni ddylech yfed alcohol am gyfnod o …… tan …… [rhowch y dyddiad] ac yn ystod y cyfnod hwn rhaid i chi gytuno i gael eich monitro i sicrhau eich bod yn cydymffurfio.

Cau allan – Y Rhaid ichi beidio â mynd i …….. [am gyfnod o 24 awr y dydd am gyfnod o ……] [rhwng…….. a …… o'r gloch [noder y dyddiad(au)]]. Rhoddir tag electronig amdanoch a byddwch yn cael eich monitro drwy GPS.

Monitro presenoldeb – Rhaid ichi fynd i …… [noder y weithgaredd neu'r apwyntiad] am ……. [noder yr amser] ar …….. [noder y dyddiad(au)] yn…… [noder y lleoliad].

Monitro lleoliad – Byddwch yn cael eich monitro yn electronig am gyfnod o…… Mae hyn yn golygu y bydd eich symudiadau yn cael eu monitro'n electronig drwy'r tag GPS.

Y cyfan – Bydd y cwmni monitro yn gosod tag arnoch yn eich cyfeiriad. Rhaid ichi wisgo'r tag drwy'r amser yn ystod cyfnod y gofyniad/gofynion.

Ni ddylech dynnu'r tag nac ymyrryd â'r offer mewn unrhyw ffordd, ac mae'n rhaid ichi sicrhau eich bod yn tsiarjo'r batri.

Mae'n rhaid ichi ganiatáu mynediad i staff y cwmni monitro er mwyn iddynt allu gosod y tag ac egluro sut mae'n gweithio.

Mae'n rhaid ichi gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau rhesymol a roddir ichi.

[Pan nad yw'r amodau a osodir yn cynnwys cyrffyw â thag, dylid cynnwys y canlynol] **Rhaid ichi aros yn y cyfeiriad a gymeradwywyd gan eich swyddog goruchwylio rhwng 5pm a hanner nos tan ……** [noder ddyddiad sydd ddeuddydd ar ôl heddiw]**, fel y gellir gosod eich tag a gosod yr offer monitro. Bydd y gofyniad hwn yn dod i ben unwaith y bydd y tag a'r offer monitro wedi cael eu gosod. Mae'n rhaid ichi gydymffurfio wrth i'r tag a'r offer monitro gael eu gosod.**

Dedfryd o garchar

Rydym yn eich anfon i [garchar] [sefydliad troseddwyr ifanc] am gyfnod o ..... diwrnod/ wythnos/mis.

- [Nodwch bob trosedd.
- Nodwch y cyfnod o garchar.
- Nodwch a yw'n gydredol neu'n ddilynol.]

1. **Mae'r trosedd(au) mor ddifrifol fel bod cyfiawnhad dros roi dedfryd o garchar** [neu]
2. **Rydych wedi methu'n fwriadol a pharhaus i gydymffurfio â'ch gorchymyn cymunedol.** [neu]
3. **Rydych wedi gwrthod cytuno i ni wneud gofyniad ..... ar orchymyn cymunedol.**

Ein rhesymau yw:

[Rhowch eich rhesymau]

[Lle bo'n berthnasol.] **Rydym wedi lleihau eich dedfryd oherwydd eich bod wedi pledio'n euog. Pe baech heb wneud, byddai eich dedfryd wedi bod yn ……..**

Bydd y ……. diwrnod a dreulioch ar gyrffyw gyda thag yn cyfrif tuag at y ddedfryd hon. Bydd unrhyw amser a dreulioch ar remand yn cael ei gyfrifo gan yr awdurdod / carchar / YOI priodol.
[Os remandiwyd y diffynnydd neu os oedd ar gyrffyw gyda thag am fwy na 9 awr y dydd, bydd eich cynghorydd cyfreithiol yn cyfrifo nifer y diwrnodau sydd i'w hystyried.]

Lle dedfrydir am drosedd(au) a gyflawnwyd ar ôl 31 Ionawr 2015 – Byddwch fel arfer yn cael eich rhyddhau ar drwydded ar ôl treulio hanner eich dedfryd. Bydd eich trwydded yn parhau tan ddiwedd eich dedfryd ac os collfarnir chi am drosedd pellach, neu o dorri unrhyw un o ofynion eich trwydded, bydd angen i chi efallai fynd yn ôl i'r carchar.

Ar ddiwedd cyfnod eich trwydded, byddwch yn cael eich goruchwylio am gyfnod pellach yn y gymuned. Bydd yr oruchwyliaeth yn dod i ben 12 mis ar ôl eich rhyddhau o'r carchar. Os na fyddwch yn cydymffurfio â thelerau'r oruchwyliaeth hon, gallech orfod dod yn ôl i'r llys a chael cosb bellach a allai gynnwys eich anfon i'r carchar.

Ydych chi'n deall?

[Lle bo'n berthnasol, ystyriwch unrhyw orchymyn ategol, iawndal a/neu waharddiad.]

Oedi dedfryd

Ni fwriadwn eich dedfrydu heddiw, ond byddwn yn gwneud hynny ar …….. Mae hyn fel y gallwn adolygu eich ymddygiad rhwng nawr a phryd hynny.

Arhyn o bryd rydym yn meddwl eich dedfrydu i …… ond os na fyddwch yn cyflawni unrhyw droseddau pellach dros y cyfnod hwn ac yn cwblhau'r gofynion canlynol, byddwn efallai'n rhoi dedfryd lai i chi

Y gofynion sy'n rhaid eu cyflawni yw……

Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r gofynion, neu'n cyflawni trosedd arall yn ystod y cyfnod hwn, gallech orfod dod yn ôl i'r llys yn gynt i'ch dedfrydu am drosedd(au) heddiw ac unrhyw rai eraill.

Bydd swyddog prawf yn ysgrifennu adroddiad cyn i chi gael eich dedfrydu a rhaid i chi gydweithredu â'r swyddog.

Ydych chi'n deall?

Ydych yn cytuno i'r camau hyn?

Ni chewch adael adeilad y llys tan fydd gennych gopi o'r gorchymyn.

Rhyddhad – diamod

Am y trosedd(au) o…….. rydym yn eich rhyddhau'n ddiamod. Er eich bod yn euog o'r trosedd(au), ni chredwn fod angen eich cosbi oherwydd …….. ond byddwn yn cadw cofnod o'ch euogfarn.

Ydych chi'n deall?

Rhyddhad – amodol

Am y trosedd(au) o …… rydym yn eich rhyddhau'n amodol am …… mis/blynedd oherwydd …… Nid ydych yn cael eich cosbi heddiw. Fodd bynnag, os byddwch yn cyflawni trosedd arall yn ystody …… mis/blynedd nesaf, gallwch gael eich cosbi am drosedd(au) heddiw ac am y trosedd newydd.

[Lle bo'n berthnasol.] **Rydym wedi lleihau eich dedfryd oherwydd eich bod wedi pledio'n euog. Pe baech heb wneud, byddai wedi bod yn.....**

Ydych chi'n deall?

[Lle bo'n berthnasol, ystyriwch unrhyw orchymyn ategol, iawndal a/neu waharddiad.]

Gwaharddiad – cyffredinol

Rydych wedi eich gwahardd rhag gyrru am …….. diwrnod/ wythnos/ mis/ blynedd. Mae hyn yn golygu na allwch yrru unrhyw gerbyd modur ar ffordd neu mewn lle cyhoeddus o'r funud hon tan ddiwedd eich cyfnod gwahardd. Os byddwch yn gyrru a chithau wedi'ch gwahardd, byddwch yn cyflawni trosedd difrifol ac efallai y cewch garchar a'ch gwahardd eto.

Os yw'r cyfnod gwahardd am 56 diwrnod neu fwy – **Rhaid i chi wneud cais i'r DVLA am drwydded cerdyn-llun newydd os ydych am yrru unwaith y daw eich cyfnod gwahardd i ben. Ni ddylech yrru hyd nes y byddwch wedi derbyn eich trwydded cerdyn-llun newydd.** [Os nad yw trwydded cerdyn-llun wedi ei ildio i'r llys]. **Nid yw eich trwydded cerdyn-llun cyfredol yn ddilys bellach, ac mae'n rhaid i chi ei anfon i'r DVLA.**

Os ydych chi'n droseddwr risg uchel – **Rhaid i chi fodloni'r DVLA eich bod yn ffit yn feddygol i yrru. Bydd arnoch angen cwblhau, a thalu am, asesiad meddygol, gan gynnwys profion gwaed.**

Os yw'r cyfnod gwahardd am 55 diwrnod neu lai. – **Fe nodir y cyfnod gwahardd ar eich cofnod gyrru DVLA. Ni does angen i chi roi eich trwydded cerdyn-llun i mewn, ond ni fydd yn ddilys tan ddaw'r cyfnod gwahardd i ben.**

Os rhoddir dedfryd o garchar ar unwaith i chi – **Bydd cyfnod eich gwaharddiad yn cael ei ymestyn i ystyried y ddedfryd o garchar a roddwyd i chi.**

Ydych chi'n deall?

[Lle bo'n berthnasol, ystyriwch unrhyw orchymyn ategol, iawndal a/neu waharddiad]
[Lle bo'n berthnasol, ystyriwch gwrs adsefydlu yfed a gyrru]

Cyrsiau adsefydlu ar ôl yfed a gyrru

Rydym yn rhoi cyfle i chi leihau cyfnod eich gwaharddiad am ..... wythnos os llwyddwch i gwblhau cwrs adsefydlu yfed a gyrru erbyn .....

Bydd y cwrs hwn yn para am 16 awr o leiaf, wedi'i wasgaru dros nifer o ddiwrnodau. Bydd yn rhaid i chi dalu cost y cwrs.

Os dymunwch gael cyfle i leihau cyfnod eich gwaharddiad, rhaid i chi ddweud wrthym nawr. Ni ellir ei gynnig nes ymlaen. Nid ydym yn eich gorfodi i fynychu'r cwrs ond os na hynny ac os na wnewch ei gwblhau i fodlonrwydd trefnwyr y cwrs, bydd cyfnod llawn y gwaharddiad cymwys.

Ydych yn cytuno i fynychu'r cwrs?

[Lle bo'n berthnasol, ystyriwch unrhyw orchymyn ategol, iawndal a/neu waharddiad]

Gwaharddiad – dros dro

Am y trosedd(au) o ..... rydym yn rhoi dedfryd o waharddiad dros dro. Bydd hyn yn cychwyn nawr ac yn para am gyfnod o chwe mis neu hyd nes y cewch eich dedfrydu, pa un bynnag ddaw gyntaf. Pan gewch eich dedfrydu byddwch yn cael gwybod yn union faint fydd eich cyfnod gwaharddiad. Bydd y gwaharddiad heddiw'n cyfrif tuag at unrhyw gyfnod gwaharddiad terfynol a osodir.

Ni allwch yrru unrhyw gerbyd modur ar ffordd neu mewn lle cyhoeddus o'r funud hon ymlaen. Os byddwch yn gyrru a chithau wedi'ch gwahardd, byddwch yn cyflawni trosedd difrifol ac efallai y cewch garchar a'ch gwahardd eto.

Ydych chi'n deall?

[Delio â mechnïaeth/remand, fel sy'n briodol]
[Ar gyfer mechnïaeth ddiamod, gweler tudalen 26]
[Ar gyfer mechnïaeth amodol, gweler tudalen 27]
[Ar gyfer remandio yn y ddalfa ar ôl collfarnu (troseddau ditiadwy a neillffordd) gweler tudalen 29b]
[Ar gyfer remandio yn y ddalfa ar ôl collfarnu (troseddau ddiannod gyda'r opsiwn i garcharu) gweler tudalen 30b]

Gwaharddiad – hyd nes pasio'r prawf

Rydych hefyd wedi eich gwahardd hyd nes y cymrwch [brawf gyrru] [prawf gyrru estynedig]. Mae hyn yn golygu unwaith y daw eich cyfnod gwaharddiad i ben, y gallwch wneud cais am drwydded dros dro'n unig. Pan fyddwch yn gyrru gyda thrwydded dros dro, rhaid i chi gael eich goruchwylio gan yrrwr cymwysedig a dangos platiau L/D ar eich cerbyd. Os na wnewch hyn, byddwch yn cyflawni trosedd o yrru a chithau wedi eich gwahardd.

Cosbau ariannol

Iawndal

Am y trosedd o …… rydym yn gorchymyn eich bod yn talu £…..... o iawndal am yr [anaf] [difrod][colled] a achoswyd i ..... [Ail-adrodd fel bo angen.]

Ein rhesymau yw ……..

Dirwy

Am y trosedd o …….... rydym yn rhoi dirwy o £ ..…. i chi [Ail-adrodd fel bo angen.]

[Lle bo'n berthnasol.] Rydym wedi lleihau eich dedfryd oherwydd eich bod wedi pledio'n euog. Pe baech heb wneud, byddai wedi bod yn ……..

Ein rhesymau yw …….

Gorchmynion Ategol

Gordal

Rhaid i chi hefyd dalu gordal o £..... Defnyddir yr arian hwn i ariannu gwasanaethau i ddioddefwyr.

Costau

Rhaid i chi dalu £……. tuag at gostau'r erlyniad.

[Lle bo'n berthnasol, ystyriwch waharddiad]

Manylion talu

Mae gennych gyfanswm o £..... i'w dalu. Mae'n ddyledus nawr. Allwch ei dalu'n llawn heddiw?

Rydym yn gwneud gorchymyn casglu fel bod staff y llys yn gallu sicrhau y telir y swm a orchmynnwyd. Rhaid i chi dalu ar y diwrnod(au) pan orchmynnir chi i wneud hynny a rhaid i chi roi gwybod i'r llys am unrhyw newid i'ch amgylchiadau ariannol neu gyfeiriad. [Rhowch y rhesymau os na wneir gorchymyn casglu.]

Os na dalwch y taliadau fel y gorchmynnir, byddwch yn dod yn ôl i'r llys a gallech orfod mynd i'r carchar.

Ydych chi'n deall?

Ar gyfer diffygdalwyr presennol neu lle gorchmynnir talu iawndal [neu lle rhoddir caniatâd]

Rydym yn gwneud [gorchymyn atafaelu enillion] [gorchymyn tynnu arian o fudd-daliadau].

Os bydd y gorchymyn hwn yn methu am unrhyw reswm, rhaid i chi ei dalu ar gyfradd o £.....

yr wythnos / mis gan ddechrau ar .....

Gorchymyn ysbyty

Rydym wedi ystyried eich adroddiadau meddygol a'r holl amgylchiadau ac am wneud gorchymyn ysbyty fel y derbyniwch y driniaeth sydd ei hangen arnoch.

Byddwch yn mynd i ysbyty ..... [heddiw] [o fewn y 28 diwrnod nesaf a than hynny byddwch yn cael eich cadw mewn lle diogel].

Bydd eich arhosiad yn yr ysbyty'n dibynnu ar ba mor dda y byddwch yn ymateb i'ch triniaeth.

Ydych chi'n deall?

Gorchymyn atgyfeirio (i rai 10-17 oed yn unig)

Am y trosedd(au) o …….. rydym yn gwneud gorchymyn atgyfeirio am ..... mis.

Byddwch yn cwrdd â phanel o bobl fydd yn cael gwybod y ffeithiau canlynol am eich troseddu …….

Yna byddant yn gofyn i chi gytuno a llofnodi contract yn cynnwys gweithgareddau i'ch atal rhag aildroseddu. Mae'r gorchymyn yn dechrau ar y diwrnod y llofnodwch y contract.

Os na lofnodwch y contract, neu os na wnewch y pethau a restrir ynddo, gallech orfod dod yn ôl i'r llys a chael dedfryd wahanol.

Rhaid i [nodwch enwau rhiant neu rieni / gwarcheidwad neu warcheidwaid / cynrychiolydd awdurdod lleol] ..... hefyd fynychu'r cyfarfodydd.

Bydd eich gorchymyn yn cael ei oruchwylio gan y ..... Tîm Troseddwyr Ifanc.

Rhaid i chi aros am gopi o'r gorchymyn cyn i chi adael adeilad y llys.

Rhaid i chi hefyd dalu gordal o £.....

Ydych chi'n deall?

Gorchymyn dedfryd ohiriedig

Rydym yn eich anfon i [garchar] [sefydliad troseddwyr ifanc] am gyfnod o ..... diwrnod/wythnos/mis. Fodd bynnag bydd y ddedfryd yn cael ei gohirio ar yr amod na collfarnir chi am drosedd arall yn ystod y ..... mis nesaf [lle bo'n berthnasol] a'ch bod yn cydymffurfio â'r gofynion a osodir yn ystod y ..... mis nesaf.

Mae'r ddedfryd yn cynnwys y canlynol:

- [Rhestrwch bob trosedd.
- Rhowch y cyfnod o garchar am bob trosedd.
- Nodwch a yw'n rhedeg yn gydredol neu'n ddilynol.]

[Lle bo'n berthnasol.] **Bwriadwn osod y gofyniad / gofynion canlynol:**

[Nodwch ba ofynion a osodir.]

[Gallai'r gofynion orffen ar wahanol ddyddiadau. Drosodd, yn nhrefn y wyddor, eglurir pob un o'r gofynion. Dalier sylw: Rhaid cael caniatâd y troseddwr ar gyfer unrhyw ofyniad triniaeth.]

Os torrwch unrhyw ofyniad neu os collfarnir chi am drosedd arall tra byddwch ar eich gorchymyn, gallwch ddisgwyl gorfod treulio'r ddedfryd o garchar hon.

Rhaid i chi roi gwybod i'ch goruchwyliwr os dymunwch newid eich cyfeiriad a chael eu caniatâd i wneud hynny. Os na fydd eich goruchwyliwr yn cytuno y gallwch newid cyfeiriad, bydd angen i chi wneud cais i'r llys. Os byddwch yn symud tŷ heb ganiatâd eich goruchwyliwr neu'r llys, byddwch yn torri eich gorchymyn a gallwch orfod dod yn ôl i'r llys.

Os na allwch fynychu apwyntiadau oherwydd salwch, bydd angen ichi ddangos tystysgrif feddygol i'ch goruchwyliwr. Os na wnewch hyn, byddwch yn torri rheolau'r gorchymyn hwn.

Os bydd eich amgylchiadau'n newid, gallwch ofyn i'r llys adolygu'r gorchymyn.

Rydym yn gwneud y gorchymyn hwn oherwydd bod y trosedd(au) mor ddifrifol fel mai carchar yw'r unig opsiwn addas. Ein rhesymau yw:

[Rhowch eich rhesymau]

[Lle bo'n berthnasol.] **Rydym wedi lleihau eich dedfryd oherwydd eich bod wedi pledio'n euog. Pe baech heb wneud, byddai wedi bod yn ……..**

[Lle bo'n berthnasol, ystyriwch unrhyw orchymyn ategol, iawndal a/neu waharddiad]

Gofynion gorchymyn dedfryd ohiriedig

Triniaeth alcohol – Byddwch yn derbyn triniaeth [breswyl] [di-breswyl] dan gyfarwyddyd Dr ……. am gyfnod o ..... Ydych yn cytuno i'r gofyniad hwn?

Canolfan ymbresenoli – Rhaid i chi fynd i'r ganolfan fynychu y bydd eich swyddog cyfrifol yn eich cyfarwyddo i fynd iddi. Rhaid i chi gwblhau cyfanswm o..... awr ar y dyddiau a benodir gan y swyddog sydd yng ngofal y ganolfan.

Cyrffyw – Rhaid i chi aros yn [rhowch y cyfeiriad] rhwng yr oriau ..... ar y diwrnodau canlynol ……. Bydd tag electronig yn cael ei ffitio arnoch gan y cwmni monitro yn eich cyfeiriad cartref, yn ystod oriau cyrffyw. Bydd y gorchymyn yn para am ..... mis/wythnos/diwrnod ac yn gorffen am ..... ar .....Ni ddylech ymyrryd â'r tag nac ychwaith â'r uned reoli.

Adsefydlu defnyddwyr cyffuriau – Rydym yn bwriadu ichi gael triniaeth [breswyl] [amhreswyl] dan gyfarwyddyd …… a darparu samplau i'w profi yn ôl y gofyn am gyfnod o ……. Bydd y llys yn adolygu hyn ar ..... a bydd yn rhaid ichi ddod i'r llys yr adeg honno. A ydych yn cydsynio â'r gofyniad hwn?

Gwahardd teithio dramor – Ni chewch deithio i unrhyw wlad y tu allan i Ynysoedd Prydain [ar ……] [am gyfnod o .....]

[Ar gyfer gofynion ymwrthod ag yfed alcohol, gwahardd rhag mynd i ardal benodol a monitro presenoldeb gweler tudalen 22a]

Triniaeth iechyd meddwl – Byddwch yn derbyn triniaeth [breswyl] [di-breswyl] dan gyfarwyddyd Dr ……. am gyfnod o ..... tan ..... [rhowch y dyddiad]. Ydych yn cytuno i'r gofyniad hwn?

Rhaglen – Rhaid i chi gymryd rhan mewn rhaglen yn ôl cyfarwyddyd eich goruchwyliwr am gyfnod o …… diwrnod

Gweithgaredd Gwaharddedig – Ni chewch ……. [am gyfnod o .....] [ar y diwrnodau canlynol …….] tan ..... [rhowch y dyddiad]

Gweithgaredd adsefydlu – Byddwch dan oruchwyliaeth swyddog cyfrifol ac yn ystod y cyfnod goruchwylio bydd rhaid ichi ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau a roddir ichi ynghyd â mynychu pob apwyntiad. Hefyd, bydd rhaid ichi gwblhau i fyny at [……] diwrnod o weithgaredd fel y cyfarwyddir gan eich swyddog cyfrifol.

Preswylfan – Rhaid i chi fyw yn …… tan ..... [lle bo'n berthnasol] hyd nes y bydd eich swyddog cyfrifol yn cytuno y gallwch fyw mewn cyfeiriad gwahanol.

Gwaith di-dâl – Rhaid i chi gyflawni ..... awr o waith di-dâl yn y gymuned yn ôl cyfarwyddyd eich swyddog cyfrifol. Rhaid cwblhau hwn erbyn ..... [rhowch y dyddiad].

Gofynion gorchymyn dedfryd ohiriedig – ymwrthod ag yfed alcohol, gwahardd rhag mynd i ardal benodol a monitro presenoldeb

Ymwrthod ag yfed alcohol a monitro – Ni ddylech yfed alcohol am gyfnod o …… tan …… [rhowch y dyddiad] ac yn ystod y cyfnod hwn rhaid i chi gytuno i gael eich monitro i sicrhau eich bod yn cydymffurfio.

Cau allan – Rhaid ichi beidio â mynd i …….. [am gyfnod o 24 awr y dydd am gyfnod o ……] [rhwng …….. a …… o'r gloch tan …… [noder y dyddiad(au)]. Rhoddir tag electronig amdanoch a byddwch yn cael eich monitro drwy GPS.

Monitro presenoldeb – Rhaid ichi fynd i …… [noder y weithgaredd neu'r apwyntiad] am ……. [noder yr amser] ar …….. [noder y dyddiad(au)] yn …… [noder y lleoliad].

Monitro lleoliad – Byddwch yn cael eich monitro yn electronig am gyfnod o …… Mae hyn yn golygu y bydd eich symudiadau yn cael eu monitro'n electronig drwy'r tag GPS.

Y cyfan – Bydd y cwmni monitro yn gosod tag arnoch yn eich cyfeiriad. Rhaid ichi wisgo'r tag drwy'r amser yn ystod cyfnod y gofyniad/gofynion.

Ni ddylech dynnu'r tag nac ymyrryd â'r offer mewn unrhyw ffordd, ac mae'n rhaid ichi sicrhau eich bod yn tsiarjo'r batri.

Mae'n rhaid ichi ganiatáu mynediad i staff y cwmni monitro er mwyn iddynt allu gosod y tag ac egluro sut mae'n gweithio

Mae'n rhaid ichi gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau rhesymol a roddir ichi.

[Pan nad yw'r amodau a osodir yn cynnwys cyrffyw â thag, dylid cynnwys y canlynol] **Rhaid ichi aros yn y cyfeiriad a gymeradwywyd gan eich swyddog goruchwylio rhwng 5pm a hanner nos tan ……** [noder dyddiad sydd ddeuddydd ar ôl heddiw], **fel y gellir gosod eich tag a gosod yr offer monitro. Bydd y gofyniad hwn yn dod i ben unwaith y bydd yr offer wedi'i osod. Mae'n rhaid ichi gydymffurfio wrth i'r tag a'r offer monitro gael eu gosod.**

Gohirio er mwyn derbyn adroddiadau meddygol

Mae angen i ni dderbyn adroddiad meddygol cyn penderfynu sut i ddelio gyda chi am eich trosedd(au). Bydd eich achos yn cael ei wrando ar ..... am ..... am/pm.

Byddwch yn cael eich remandio i ysbyty ..... lle gwnaed trefniadau i chi gael eich derbyn.

Rhaid i chi gydymffurfio â'r amodau canlynol:

I gael archwiliad meddygol gan [un] [dau] feddyg a rhaid i chi fynychu yn ..... ar gyfer hyn.

[Lle bydd ymchwilio i gyflwr meddwl, dylid ychwanegu:] **Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir i chi.**

[Delio â mechnïaeth/remand, fel sy'n briodol]

[Ar gyfer mechnïaeth ddiamod, gweler tudalen 26]

[Ar gyfer mechnïaeth amodol, gweler tudalen 27]

[Ar gyfer remandio yn y ddalfa cyn collfarnu (troseddau ditiadwy a neillffordd) gweler tudalen 29]

[Ar gyfer remandio yn y ddalfa ar ôl collfarnu (troseddau ditiadwy a neillffordd) gweler tudalen 29b]

Gorchymyn ysbyty dros dro

Rydym yn gwneud gorchymyn ysbyty dros dro tan ..... Rydym wedi ystyried dau adroddiad meddygol ac yn fodlon eich bod yn dioddef o .....

Byddwch yn mynd i ysbyty ..... [heddiw] [o fewn y 28 diwrnod nesaf a than hynny byddwch yn cael eich cadw mewn lle diogel].

Tra byddwch yn yr ysbyty, bydd adroddiadau pellach yn cael eu paratoi i'n helpu i wneud penderfyniad ynghylch sut i ddelio â chi.

Gohirio er mwyn derbyn adroddiadau cyn-dedfrydu

[Mae rhagdybiaeth o blaid adroddiad llafar ar yr un diwrnod lle bo hynny'n bosibl bob tro. Efallai y bydd angen gohirio yn achos troseddau lle mae angen asesiad llawn, e.e. gofyniad triniaeth am droseddau rhywiol / trais yn y cartref neu yn achos troseddwyr cyson iawn. Mae arferion lleol yn amrywio.]

Rydym yn rhoi eich achos yn ôl tan ..... am/pm heddiw [neu tan .....].

Rhaid i chi weld a chydweithredu â swyddog prawf fydd yn paratoi adroddiad [ysgrifenedig] [llafar] fydd yn rhoi mwy o wybodaeth i ni amdanoch. Efallai y gofynnir cwestiynau i chi i'w helpu i ystyried a ydych yn addas ar gyfer dedfryd benodol. Nid yw'n awgrymu mai dyma'r ddedfryd a roddir i chi. Gallai'r llys roi unrhyw ddedfryd a ganiateir o dan y gyfraith [gan gynnwys carchar].
[Lle bo'n drosedd neillffordd.] **Gallem dal eich traddodi i Lys y Goron am ddedfryd fwy nag y gallwn ni ei rhoi**

[Delio â mechnïaeth/remand, fel sy'n briodol]

[Ar gyfer mechnïaeth ddiamod, gweler tudalen 26]

[Ar gyfer mechnïaeth amodol, gweler tudalen 27]

[Ar gyfer remandio yn y ddalfa ar ôl collfarnu (troseddau ditiadwy a neillffordd) gweler tudalen 29b]

[Ar gyfer remandio yn y ddalfa ar ôl collfarnu (troseddau ddiannod gyda'r opsiwn i garcharu) gweler tudalen 30b]

Mechnïaeth ddiamod

Rhoddir mechnïaeth ddiamod i chi ymddangos gerbron y llys hwn ar ..... am ..... am/pm. Os na ddowch yn ôl i'r llys ar y dyddiad a'r amser hwn, byddwch efallai'n cyflawni trosedd. Gallech gael eich arestio, dirwyo neu eich anfon i garchar.

Os troseddwch a chithau ar fechnïaeth, bydd eich dedfryd yn un fwy.

[Lle bo'n berthnasol.] **Mae eich achos wedi'i restru am dreial ar yr achlysur nesaf. Os na ddowch yno, bydd y treial yn cychwyn yn eich absenoldeb, oni bai na fyddai er budd cyfiawnder iddo gychwyn.**

[Nodwch beth ddylai ddigwydd yn y gwrandawiad nesaf gan wneud unrhyw gyfarwyddiadau angenrheidiol i sicrhau y rheolir yr achos yn effeithiol.]

Mechnïaeth amodol

Rhoddir mechnïaeth gydag amodau i chi ymddangos gerbron y llys hwn ar ..... am ..... am/pm. Os na ddowch yn ôl i'r llys ar y dyddiad a'r amser hwn, byddwch efallai'n cyflawni trosedd. Gallech gael eich arestio, dirwyo neu eich anfon i garchar. Os troseddwch a chithau ar fechnïaeth, bydd eich dedfryd yn un fwy.

[Lle bo'n berthnasol.] **Mae eich achos wedi'i restru am dreial ar yr achlysur nesaf. Os na ddowch yno, bydd y treial yn cychwyn yn eich absenoldeb, oni bai na fyddai er budd cyfiawnder iddo gychwyn.**

Rhaid i chi gydymffurfio â'r amodau canlynol: Os na wnewch hynny, gallech gael eich arestio a'ch dwyn o flaen y llys lle ailystyrir eich mechnïaeth.

[Nodwch yn yr ***union*** dermau beth yw'r amodau, e.e.

- preswylfa, e.e. i fyw a chysgu yn.....
- cyrffwy
- i adrodd i orsaf heddlu
- i beidio â chael cyswllt â thystion a enwir (uniongyrchol a / neu anuniongyrchol)
- apwyntiadau â'r tîm ymyriadau cyffuriau.]

[Ar gyfer amodau cadw allan a monitro presenoldeb gweler tudalen 28a]

Mae'r amodau hyn yn angenrheidiol i sicrhau:

- **eich bod yn mynychu'r llys** [a/neu]
- **nad ydych yn troseddu tra byddwch ar fechnïaeth** [a/neu]
- **nad ydych yn ymyrryd â thystion** [a/neu]
- **eich bod yn mynychu eich apwyntiadau.**

[Nodwch beth ddylai ddigwydd yn y gwrandawiad nesaf gan wneud unrhyw gyfarwyddiadau angenrheidiol i sicrhau y rheolir yr achos yn effeithiol.]

[Lle bo'n berthnasol.] Rydym yn fodlon er y cawsoch brawf positif am gyffuriau Dosbarth A ac er i chi wrthod triniaeth, nad oes unrhyw risg sylweddol y byddwch yn cyflawni troseddau pellach oherwydd……

[Lle bo'n berthnasol.] Credwn fod yr amodau hyn yn ateb y pryderon y dywedodd yr erlyniad wrthym amdanynt.

[Lle bo'n berthnasol.] Rydym yn rhoi mechnïaeth i chi oherwydd pe byddech yn cael eich collfarnu am y trosedd hwn nid oes posibilrwydd gwirioneddol y byddech yn cael dedfryd o garchar. Er nad ydym yn eich remandio yn y ddalfa, nid yw'n dweud mai dyma'r ddedfryd y byddech yn ei chael pe byddech yn cael eich collfarnu. Gallai'r llys roi unrhyw ddedfryd a ganiateir o dan y gyfraith gan gynnwys dedfryd o garchar.

[Lle bo'n drosedd neillffordd.] Gallech dal gael eich traddodi i Lys y Goron lle gallai'r barnwr yno roi dedfryd fwy nag y gallwn ni ei rhoi.

Ydych chi'n deall?

Mechnïaeth amodol - monitro cau allan a phresenoldeb

[Noder yr *union* amodau e.e.

- cau allan: Rhaid ichi beidio â mynd i …….. Mae'r gofyniad hwn yn weithredol [24 awr y dydd nes daw eich mechnïaeth i ben] [rhwng ..... o'r gloch ar ……. [noder y dyddiad(au)]
- monitro presenoldeb: Rhaid ichi fynd i …….. [noder y weithgaredd neu'r apwyntiad] am ..... [noder yr amser] ar …….. [noder y dyddiad(au)] yn …… [noder y lleoliad].]

[Os yn berthnasol.] **Bydd yr amod(au) [cau allan][cyrffyw][presenoldeb] yn cael eu monitro'n electronig. Bydd y cwmni monitro yn rhoi tag GPS amdanoch yn eich cyfeiriad. Rhaid ichi wisgo'r tag drwy'r amser yn ystod cyfnod yr amod/amodau mechnïaeth.**

Ni ddylech dynnu'r tag nac ymyrryd â'r offer mewn unrhyw ffordd, ac mae'n rhaid ichi sicrhau eich bod yn tsiarjo'r batri.

Mae'n rhaid ichi ganiatáu mynediad i staff y cwmni monitro er mwyn iddynt allu gosod y tag ac egluro sut mae'n gweithio.

Mae'n rhaid ichi gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau rhesymol a roddir ichi.

[Pan nad yw'r amodau a osodir yn cynnwys cyrffyw â thag, dylid cynnwys y canlynol.] **Rhaid ichi aros yn** [noder y cyfeiriad] **rhwng 5pm a hanner nos tan ……** [noder ddyddiad sydd ddeuddydd ar ôl heddiw]**, fel y gellir gosod eich tag a gosod yr offer monitro. Bydd yr amod hwn yn dod i ben unwaith y bydd y tag a'r offer monitro wedi cael eu gosod. Mae'n rhaid ichi gydymffurfio wrth i'r tag a'r offer monitro gael eu gosod.**

Remandio yn y ddalfa cyn collfarnu (troseddau ditiadwy a neillffordd)

Rydym yn eich remandio yn y ddalfa tan .....

Nid ydym yn rhoi mechnïaeth i chi oherwydd:

1. **mae seiliau sylweddol dros gredu:**
   - (a) **na ddowch yn ôl i'r llys** [a/neu]
   - (b) **y byddwch yn cyflawni trosedd** [a/neu]
   - (c) **y byddwch yn ymyrryd â thystion neu'n rhwystro cwrs yr achos** [a/neu]
2. **honnir eich bod wedi cyflawni'r trosedd hwn a chithau ar fechnïaeth** [a/neu]
3. **cawsoch eich rhyddhau'n flaenorol ar fechnïaeth amodol ac ni wnaethoch gadw at yr amodau hynny.**

   [Yng nghyswllt unrhyw un o'r eithriadau uchod] **a phe byddech yn cael eich collfarnu, credwn fod posibilrwydd gwirioneddol y byddwch yn derbyn dedfryd o garchar am y trosedd hwn** [a/neu]
4. **Mae seiliau sylweddol dros gredu y byddwch yn cyflawni trosedd sy'n debygol o achosi, neu wneud i .....** [rhowch fanylion yr unigolyn cysylltiedig] **ofni cael anaf corfforol neu feddyliol** [a/neu]
5. **rydych wedi cael prawf positif am .....** [rhowch fanylion cyffur Dosbarth A] **ond ni fyddech yn cytuno i gael asesiad cyffuriau a / neu driniaeth** [a/neu]

6. **rydym yn fodlon bod hyn er mwyn eich diogelwch eich hun** [a/neu]
7. **rydych eisoes yn garcharor yn y carchar** [a/neu]
8. **rydym yn fodlon nad oes gennym ddigon o wybodaeth ac ni allwn wneud penderfyniad ar fechnïaeth**

Credwn hyn oherwydd:

a. **natur a difrifoldeb y trosedd a pha ddedfryd a allai gael ei rhoi i chi amdano** [a/neu]
b. **eich cofnod troseddol, cefndir personol a chymeriad** [a/neu]
c. **nid ydych wedi cydymffurfio â mechnïaeth flaenorol** [a/neu]
d. **cryfder y dystiolaeth yn eich erbyn** [a/neu]
e. **y gallech ymddwyn mewn ffordd a allai achosi neu wneud i unigolyn cysylltiedig ofni cael anaf** [a/neu]
f. [unrhyw reswm perthnasol arall – rhowch fanylion.]

[Os yw'r gwrandawiad nesaf drwy gyswllt fideo, nodwch hynny] **Ni chyflwynir chi gerbron y llys ar ..... yn hytrach byddwch yn cymryd rhan yn y gwrandawiad drwy gyswllt teledu byw, yr un fath â phe baech yma'n bersonol.**

Remandio yn y ddalfa ar ôl collfarnu (troseddau ditiadwy a neillffordd)

Rydym yn eich remandio yn y ddalfa tan …….

Nid ydym yn rhoi mechnïaeth i chi oherwydd:

1. **mae seiliau sylweddol dros gredu:**
   - (a) **na ddowch yn ôl i'r llys** [a/neu]
   - (b) **y byddwch yn cyflawni trosedd** [a/neu]
   - (c) **y byddwch yn ymyrryd â thystion neu'n rhwystro cwrs yr achos** [a/neu]
2. **honnir eich bod wedi cyflawni'r trosedd hwn a chithau ar fechnïaeth** [a/neu]
3. **cawsoch eich rhyddhau'n flaenorol ar fechnïaeth amodol ac ni wnaethoch gadw at yr amodau hynny** [a/ neu]
4. **Mae seiliau sylweddol dros gredu y byddwch yn cyflawni trosedd sy'n debygol o achosi, neu wneud i ……** [rhowch fanylion yr unigolyn cysylltiedig] **ofni cael anaf corfforol neu feddyliol** [a/neu]
5. **rydych wedi cael prawf positif am ……** [rhowch fanylion cyffur Dosbarth A] **ond ni fyddech yn cytuno i gael asesiad cyffuriau a / neu driniaeth** [a/neu]
6. **rydym yn fodlon bod hyn er mwyn eich diogelwch eich hun** [a/neu]

7. **rydych eisoes yn garcharor yn y carchar** [a/neu]
8. **rydym yn fodlon nad oes gennym ddigon o wybodaeth ac ni allwn wneud penderfyniad ar fechnïaeth.** [a/neu]
9. **dyma'r unig ffordd briodol i wneud yn siŵr y paratoir adroddiad.**

Credwn hyn oherwydd:

a. **natur a difrifoldeb y trosedd a pha ddedfryd a allai gael ei rhoi i chi amdano** [a/neu]
b. **eich cofnod troseddol, cefndir personol a chymeriad** [a/neu]
c. **nid ydych wedi cydymffurfio â mechnïaeth flaenorol** [a/neu]
d. **oherwydd cryfder y dystiolaeth yn eich erbyn** [a/neu]
e. **oherwydd y gallech ymddwyn mewn ffordd a allai achosi neu wneud i unigolyn cysylltiedig ofni cael anaf** [a/neu]
f. [unrhyw reswm perthnasol arall – rhowch fanylion.]

[Os yw'r gwrandawiad nesaf drwy gyswllt fideo, nodwch hynny] **Ni chyflwynir chi gerbron y llys ar ..... yn hytrach byddwch yn cymryd rhan yn y gwrandawiad drwy gyswllt teledu byw, yr un fath â phe baech yma'n bersonol.**

Remandio yn y ddalfa cyn collfarnu (troseddau diannod gyda'r opsiwn i garcharu)

Rydym yn eich remandio yn y ddalfa tan .....

Nid ydym yn rhoi mechnïaeth i chi oherwydd:

1. **credwn na ddowch yn ôl i'r llys oherwydd eich methiant blaenorol i wneud hynny** [a/neu]
2. **mae seiliau sylweddol dros gredu y byddwch yn cyflawni trosedd arall ar fechnïaeth oherwydd honnir bod y trosedd hwn wedi'i gyflawni tra oeddech ar fechnïaeth** [a/neu]
3. **cawsoch eich rhyddhau'n flaenorol ar fechnïaeth amodol ac ni wnaethoch gadw at yr amodau hynny ac mae gennym seiliau sylweddol dros gredu:**
   - (a) **na ddowch yn ôl i'r llys** [a/neu]
   - (b) **y byddwch yn cyflawni trosedd** [a/neu]
   - (c) **y byddwch yn ymyrryd â thystion neu'n rhwystro cwrs yr achos**

[Yng nghyswllt unrhyw un o'r eithriadau uchod] **a phe byddech yn cael eich collfarnu, credwn fod posibilrwydd gwirioneddol y byddwch yn derbyn dedfryd o garchar am y trosedd hwn** [a/neu]

4. **Mae seiliau sylweddol dros gredu y byddwch yn cyflawni trosedd sy'n debygol o achosi, neu wneud i ..... [rhowch fanylion yr unigolyn cysylltiedig] ofni cael anaf corfforol neu feddyliol** [a/neu]
5. **rydych wedi cael prawf positif am ..... [rhowch fanylion cyffur Dosbarth A] ond ni fyddech yn cytuno i gael asesiad cyffuriau a / neu driniaeth** [a/neu]
6. **rydym yn fodlon bod hyn er mwyn eich diogelwch eich hun** [a/neu]
7. **rydych eisoes yn garcharor yn y carchar** [a/neu]
8. **rydym yn fodlon nad oes gennym ddigon o wybodaeth ac ni allwn wneud penderfyniad ar fechnïaeth.**

[Os yw'r gwrandawiad nesaf drwy gyswllt fideo, nodwch hynny] **Ni chyflwynir chi gerbron y llys ar ..... yn hytrach byddwch yn cymryd rhan yn y gwrandawiad drwy gyswllt teledu byw, yr un fath â phe baech yma'n bersonol.**

Remandio yn y ddalfa ar ôl collfarnu (troseddau diannod gyda'r opsiwn i garcharu)

Rydym yn eich remandio yn y ddalfa tan ……..

Nid ydym yn rhoi mechnïaeth i chi oherwydd:

1. credwn na ddowch yn ôl i'r llys oherwydd eich methiant blaenorol i wneud hynny [a/neu]
2. mae seiliau sylweddol dros gredu y byddwch yn cyflawni trosedd arall ar fechnïaeth oherwydd honnir bod y trosedd hwn wedi'i gyflawni tra oeddech ar fechnïaeth [a/neu]
3. cawsoch eich rhyddhau'n flaenorol ar fechnïaeth amodol ac ni wnaethoch gadw at yr amodau hynny ac mae gennym seiliau sylweddol dros gredu:
   (a) na ddowch yn ôl i'r llys [a/neu]
   (b) y byddwch yn cyflawni trosedd [a/neu]
   (c) y byddwch yn ymyrryd â thystion neu'n rhwystro cwrs yr achos [a/neu]
4. Mae seiliau sylweddol dros gredu y byddwch yn cyflawni trosedd sy'n debygol o achosi, neu wneud i ..... [rhowch fanylion yr unigolyn cysylltiedig] ofni cael anaf corfforol neu feddyliol [a/neu]
5. rydych wedi cael prawf positif am ..... [rhowch fanylion cyffur Dosbarth A] ond ni fyddech yn

cytuno i gael asesiad cyffuriau a / neu driniaeth [a/neu]

6. rydym yn fodlon bod hyn er mwyn eich diogelwch eich hun [a/neu]
7. rydych eisoes yn garcharor yn y carchar [a/neu]
8. rydym yn fodlon nad oes gennym ddigon o wybodaeth ac ni allwn wneud penderfyniad ar fechnïaeth.

[Os yw'r gwrandawiad nesaf drwy gyswllt fideo, nodwch hynny] Ni chyflwynir chi gerbron y llys ar ..... yn hytrach byddwch yn cymryd rhan yn y gwrandawiad drwy gyswllt teledu byw, yr un fath â phe baech yma'n bersonol.

Remandio yn y ddalfa cyn collfarnu (troseddau heb opsiwn i garcharu)

Rydym yn eich remandio yn y ddalfa tan ……..

Nid ydym yn rhoi mechnïaeth i chi oherwydd:

1. **rydych wedi cael eich rhyddhau'n flaenorol ar fechnïaeth amodol ac ni wnaethoch gadw at yr amodau hynny ac mae gennym seiliau sylweddol dros gredu y byddwch yn cyflawni trosedd sy'n debygol o achosi, neu wneud i …….** [rhowch fanylion yr unigolyn cysylltiedig] **ofni cael anaf corfforol neu feddyliol** [a/neu]
2. **rydym yn fodlon bod hyn er mwyn eich diogelwch eich hun** [a/neu]
3. **rydych eisoes yn garcharor yn y carchar.**

[Os yw'r gwrandawiad nesaf drwy gyswllt fideo, nodwch hynny] **Ni chyflwynir chi gerbron y llys ar ……. yn hytrach byddwch yn cymryd rhan yn y gwrandawiad drwy gyswllt teledu byw, yr un fath â phe baech yma'n bersonol.**

Remandio yn y ddalfa ar ôl collfarnu (troseddau heb opsiwn i garcharu)

Rydym yn eich remandio yn y ddalfa tan ……..

Nid ydym yn rhoi mechnïaeth i chi oherwydd:

1. **credwn na ddowch yn ôl i'r llys oherwydd eich methiant blaenorol i wneud hynny** [a/neu]
2. **cawsoch eich rhyddhau'n flaenorol ar fechnïaeth amodol ac ni wnaethoch gadw at yr amodau hynny ac mae gennym seiliau sylweddol dros gredu:**
   (a) **na ddowch yn ôl i'r llys** [a/neu]
   (b) **y byddwch yn cyflawni trosedd** [a/neu]
   (c) **y byddwch yn ymyrryd â thystion neu'n rhwystro cwrs yr achos** [a/neu]
3. **rydych wedi cael eich rhyddhau'n flaenorol ar fechnïaeth amodol ac ni wnaethoch gadw at yr amodau hynny ac mae gennym seiliau sylweddol dros gredu y byddwch yn cyflawni trosedd sy'n debygol o achosi, neu wneud i ……** [rhowch fanylion yr unigolyn cysylltiedig] **ofni cael anaf corfforol neu feddyliol** [a/neu]
4. **rydym yn fodlon bod hyn er mwyn eich diogelwch eich hun** [a/neu]
5. **rydych eisoes yn garcharor yn y carchar.**

[Os yw'r gwrandawiad nesaf drwy gyswllt fideo, nodwch hynny] **Ni chyflwynir chi gerbron y llys ar ……. yn hytrach byddwch yn cymryd rhan yn y gwrandawiad drwy gyswllt teledu byw, yr un fath â phe baech yma'n bersonol.**

Remandio i lety awdurdod lleol (rhai dan 18 oed yn unig, troseddau ditiadwy a neillffordd)

Rydym yn eich remandio i lety awdurdod lleol tan ..... Tan hynny byddwch yn gyfrifoldeb/ derbyn gofal gan ..... [rhowch fanylion yr awdurdod lleol dynodedig].

Nid ydym yn rhoi mechnïaeth i chi oherwydd:

1. **mae seiliau sylweddol dros gredu:**
   - (a) **na ddowch yn ôl i'r llys** [a/neu]
   - (b) **y byddwch yn cyflawni trosedd** [a/neu]
   - (c) **y byddwch yn ymyrryd â thystion neu'n rhwystro cwrs yr achos** [a/neu]
2. **honnir y byddwch yn cyflawni trosedd ar fechnïaeth, oherwydd cafodd y trosedd hwn ei gyflawni ar fechnïaeth** [a/neu]
3. **cawsoch eich rhyddhau'n flaenorol ar fechnïaeth amodol ac ni wnaethoch gadw at yr amodau hynny** [a/ neu]
4. **mae seiliau sylweddol dros gredu y byddwch yn cyflawni trosedd sy'n debygol o achosi, neu wneud i .....** [rhowch fanylion yr unigolyn cysylltiedig] **ofni cael anaf corfforol neu feddyliol** [a/neu]
5. **rydym yn fodlon y dylid gwrthod er eich lles eich hun** [a/neu]
6. **rydych eisoes yn garcharor yn y carchar** [a/neu]

7. **rydym yn fodlon nad oes gennym ddigon o wybodaeth i benderfynu a ddylid eich rhyddhau neu beidio** [a/neu]
8. **dyma'r unig ffordd briodol i wneud yn siŵr y paratoir adroddiad.**

Credwn hyn oherwydd:

a. **pa mor ddifrifol yw'r trosedd a pha ddedfryd y gallech ei derbyn amdano** [a/neu]
b. **eich cofnod troseddol, cefndir personol a chymeriad** [a/neu]
c. **cawsoch fechnïaeth o'r blaen ac ni wnaethoch ufuddhau iddi** [a/neu]
d. **oherwydd cryfder y dystiolaeth yn eich erbyn** [a/neu]
e. **oherwydd y gallech ymddwyn mewn ffordd a allai achosi, neu wneud i .....** [rhowch fanylion yr unigolyn cysylltiedig] **feddwl y gallech achosi niwed iddynt** [a/neu]
f. [unrhyw reswm perthnasol arall – rhowch fanylion.]

Rhaid i chi ddod yn ôl i'r llys ar ..... am ..... am/pm.

[Lle bo'n berthnasol.] **Byddwch yn cael eich rhoi mewn llety awdurdod lleol gyda'r amodau canlynol .....**

[Nodwch yn yr ***union*** dermau beth yw'r amodau, e.e.

- byw lle cyfarwyddir hwynt i fyw gan y Tîm Troseddwyr Ifanc / awdurdod lleol
- lle na fedrant fyw
- adrodd i orsaf heddlu
- peidio â chael cyswllt â thystion
- unrhyw amod angenrheidiol arall.]

Os torrwch unrhyw un o'r amodau, byddwch yn cael eich arestio a'ch dwyn gerbron y llys eto a gallem benderfynu eich remandio i Lety Cadw Ieuenctid.

Remandio i lety awdurdod lleol (rhai dan 18 oed yn unig, troseddau diannod gyda'r opsiwn i garcharu)

Rydym yn eich remandio i lety awdurdod lleol tan ..... Tan hynny byddwch yn gyfrifoldeb/ derbyn gofal gan ..... [rhowch fanylion yr awdurdod lleol dynodedig].

Nid ydym yn rhoi mechnïaeth i chi oherwydd:

1. **mae seiliau sylweddol dros gredu y byddwch yn cyflawni trosedd ar fechnïaeth oherwydd cafodd y trosedd hwn ei gyflawni tra oeddech ar fechnïaeth** [a/neu]
2. **mae seiliau sylweddol dros gredu y byddwch yn cyflawni trosedd sy'n debygol o achosi, neu wneud i .....** [rhowch fanylion yr unigolyn cysylltiedig] **ofni cael anaf corfforol neu feddyliol** [a/neu]
3. **credwn na ddowch yn ôl i'r llys oherwydd eich methiant blaenorol i wneud hynny** [a/neu]
4. **cawsoch eich rhyddhau'n flaenorol ar fechnïaeth amodol ac ni wnaethoch gadw at yr amodau hynny ac mae gennym seiliau sylweddol dros gredu:**
   - (a) **na ddowch yn ôl i'r llys** [a/neu]
   - (b) **y byddwch yn cyflawni trosedd** [a/neu]
   - (c) **y byddwch yn ymyrryd â thystion neu'n rhwystro cwrs yr achos** [a/neu]

5. **rydym yn fodlon y dylid gwrthod er eich lles eich hun** [a/neu]
6. **rydych eisoes yn garcharor yn y carchar** [a/neu]
7. **rydym yn fodlon nad oes gennym ddigon o wybodaeth i benderfynu a ddylid eich rhyddhau neu beidio.**

Rhaid i chi ddod yn ôl i'r llys ar ..... am ..... am/pm.

[Lle bo'n berthnasol.] **Byddwch yn cael eich rhoi mewn llety awdurdod lleol gyda'r amodau canlynol .....**

[Nodwch yn yr ***union*** dermau beth yw'r amodau, e.e.

- byw lle cyfarwyddir hwynt i fyw gan y Tîm Troseddwyr Ifanc / awdurdod lleol
- lle na fedrant fyw
- adrodd i orsaf heddlu
- peidio â chael cyswllt â thystion
- unrhyw amod angenrheidiol arall.]

Os torrwch unrhyw un o'r amodau, byddwch yn cael eich arestio a'ch dwyn gerbron y llys eto a gallem benderfynu eich remandio i Lety Cadw Ieuenctid.

Remandio i lety awdurdod lleol (rhai dan 18 oed yn unig, troseddau heb opsiwn i garcharu)

Rydym yn eich remandio i lety awdurdod lleol tan ..... Tan hynny byddwch yn gyfrifoldeb / derbyn gofal gan ..... [rhowch fanylion yr awdurdod lleol dynodedig].

Nid ydym yn rhoi mechnïaeth i chi oherwydd:

1. **credwn na ddowch yn ôl i'r llys oherwydd eich methiant blaenorol i wneud hynny** [a/neu]
2. **cawsoch eich rhyddhau'n flaenorol ar fechnïaeth amodol ac ni wnaethoch gadw at yr amodau hynny ac mae gennym seiliau sylweddol dros gredu:**
   - (a) **na ddowch yn ôl i'r llys** [a/neu]
   - (b) **y byddwch yn cyflawni trosedd** [a/neu]
   - (c) **y byddwch yn ymyrryd â thystion neu'n rhwystro cwrs yr achos** [a/neu]
3. **rydych wedi cael eich rhyddhau'n flaenorol ar fechnïaeth amodol ac ni wnaethoch gadw at yr amodau hynny ac mae gennym seiliau sylweddol dros gredu y byddwch yn cyflawni trosedd sy'n debygol o achosi, neu wneud i .....** [rhowch fanylion yr unigolyn cysylltiedig] **ofni cael anaf corfforol neu feddyliol** [a/neu]

4. **rydym yn fodlon y dylid gwrthod er eich lles eich hun** [a/neu]

5. **rydych eisoes yn garcharor yn y carchar.**

Rhaid i chi ddod yn ôl i'r llys ar ..... am ..... am/pm.

[Lle bo'n berthnasol.] **Byddwch yn cael eich rhoi mewn llety awdurdod lleol gyda'r amodau canlynol**

.....

[Nodwch yn yr ***union*** dermau beth yw'r amodau, e.e.

- byw lle cyfarwyddir hwynt i fyw gan y Tîm Troseddwyr Ifanc / awdurdod lleol
- lle na fedrant fyw
- adrodd i orsaf heddlu
- peidio â chael cyswllt â thystion
- unrhyw amod angenrheidiol arall.]

Os torrwch unrhyw un o'r amodau, byddwch yn cael eich arestio a'ch dwyn gerbron y llys eto.

Remandio i lety cadw ieuenctid, cyfres 1af o amodau (pobl ifanc rhwng 12-17 oed, troseddau ditiadwy a neillffordd)

Rydym yn eich remandio i lety awdurdod lleol tan ..... Tan hynny byddwch yn gyfrifoldeb / derbyn gofal gan ..... [rhowch fanylion yr awdurdod lleol dynodedig].

Nid ydym yn rhoi mechnïaeth i chi oherwydd:

1. **mae seiliau sylweddol dros gredu:**
   - (a) **na ddowch yn ôl i'r llys** [a/neu]
   - (b) **y byddwch yn cyflawni trosedd** [a/neu]
   - (c) **y byddwch yn ymyrryd â thystion neu'n rhwystro cwrs yr achos** [a/neu]
2. **honnir y byddwch yn cyflawni trosedd ar fechnïaeth, oherwydd cafodd y trosedd hwn ei gyflawni ar fechnïaeth** [a/neu]
3. **cawsoch eich rhyddhau'n flaenorol ar fechnïaeth amodol ac ni wnaethoch gadw at yr amodau hynny** [a/neu]
4. **mae seiliau sylweddol dros gredu y byddwch yn cyflawni trosedd sy'n debygol o achosi, neu wneud i .....** [rhowch fanylion yr unigolyn cysylltiedig] **ofni cael anaf corfforol neu feddyliol** [a/neu]

5. rydym yn fodlon y dylid gwrthod er eich lles eich hun [a/neu]
6. rydych eisoes yn garcharor yn y carchar [a/neu]
7. rydym yn fodlon nad oes gennym ddigon o wybodaeth i benderfynu a ddylid eich rhyddhau neu beidio [a/neu]
8. dyma'r unig ffordd briodol i wneud yn siŵr y paratoir adroddiad.

Credwn hyn oherwydd:

a. pa mor ddifrifol yw'r trosedd a pha ddedfryd y gallech ei derbyn amdano [a/neu]
b. eich cofnod troseddol a'ch cefndir [a/neu]
c. cawsoch fechnïaeth o'r blaen ac ni wnaethoch ufuddhau iddi [a/neu]
d. oherwydd cryfder y dystiolaeth yn eich erbyn [a/neu]
e. oherwydd y gallech ymddwyn mewn ffordd a allai achosi, neu wneud i ..... [rhowch fanylion yr unigolyn cysylltiedig] feddwl y gallech achosi niwed iddynt [a/neu]
f. [unrhyw reswm perthnasol arall – rhowch fanylion.]

Cyhuddir chi o drosedd [difrifol] [treisgar] [rhywiol].

Mae angen eich remandio i lety cadw ieuenctid [i amddiffyn y cyhoedd rhag marwolaeth neu niwed difrifol gennych] [i'ch atal rhag cyflawni troseddau sy'n cario dedfryd o garchar] oherwydd .....

Remandio i lety cadw ieuenctid, cyfres 1af o amodau (pobl ifanc 12-17 oed, troseddau diannod gyda'r opsiwn i garcharu)

Rydym yn eich remandio i lety cadw ieuenctid tan ..... Tan hynny byddwch yn gyfrifoldeb/ derbyn gofal gan ..... [rhowch fanylion yr awdurdod lleol dynodedig].

Nid ydym yn rhoi mechnïaeth i chi oherwydd:

1. **mae seiliau sylweddol dros gredu y byddwch yn cyflawni trosedd ar fechnïaeth oherwydd cafodd y trosedd hwn ei gyflawni tra oeddech ar fechnïaeth** [a/neu]
2. **mae seiliau sylweddol dros gredu y byddwch yn cyflawni trosedd sy'n debygol o achosi, neu wneud i .....** [rhowch fanylion yr unigolyn cysylltiedig] **ofni cael anaf corfforol neu feddyliol** [a/neu]
3. **credwn na ddowch yn ôl i'r llys oherwydd eich methiant blaenorol i wneud hynny** [a/neu]
4. **cawsoch eich rhyddhau'n flaenorol ar fechnïaeth amodol ac ni wnaethoch gadw at yr amodau hynny ac mae gennym seiliau sylweddol dros gredu:**
   - (a) **na ddowch yn ôl i'r llys** [a/neu]
   - (b) **y byddwch yn cyflawni trosedd** [a/neu]
   - (c) **y byddwch yn ymyrryd â thystion neu'n rhwystro cwrs yr achos** [a/neu]

5. **rydym yn fodlon y dylid gwrthod er eich lles eich hun** [a/neu]
6. **rydych eisoes yn garcharor yn y carchar** [a/neu]
7. **rydym yn fodlon nad oes gennym ddigon o wybodaeth i benderfynu a ddylid eich rhyddhau neu beidio.**

Cyhuddir chi o drosedd [difrifol] [treisgar] [rhywiol].

Mae angen eich remandio i lety cadw ieuenctid [i amddiffyn y cyhoedd rhag marwolaeth neu niwed difrifol gennych] [i'ch atal rhag cyflawni troseddau pellach sy'n cario dedfryd o garchar] oherwydd .....

Remandio i lety cadw ieuenctid, 2il gyfres o amodau (pobl ifanc rhwng 12-17 oed, troseddau ditiadwy a neillffordd)

Rydym yn eich remandio i lety awdurdod lleol tan ..... Tan hynny byddwch yn gyfrifoldeb / derbyn gofal gan ..... [rhowch fanylion yr awdurdod lleol dynodedig].

Nid ydym yn rhoi mechnïaeth i chi oherwydd:

1. **mae seiliau sylweddol dros gredu:**
   - (a) **na ddowch yn ôl i'r llys** [a/neu]
   - (b) **y byddwch yn cyflawni trosedd** [a/neu]
   - (c) **y byddwch yn ymyrryd â thystion neu'n rhwystro cwrs yr achos** [a/neu]
2. **honnir y byddwch yn cyflawni trosedd ar fechnïaeth, oherwydd cafodd y trosedd hwn ei gyflawni ar fechnïaeth** [a/neu]
3. **cawsoch eich rhyddhau'n flaenorol ar fechnïaeth amodol ac ni wnaethoch gadw at yr amodau hynny** [a/neu]
4. **mae seiliau sylweddol dros gredu y byddwch yn cyflawni trosedd sy'n debygol o achosi, neu wneud i .....** [rhowch fanylion yr unigolyn cysylltiedig] **ofni cael anaf corfforol neu feddyliol** [a/neu]
5. **rydym yn fodlon y dylid gwrthod er eich lles eich hun** [a/neu]
6. **rydych eisoes yn garcharor yn y carchar** [a/neu]

7. rydym yn fodlon nad oes gennym ddigon o wybodaeth i benderfynu a ddylid eich rhyddhau neu beidio [a/neu]

8. dyma'r unig ffordd briodol i wneud yn siŵr y paratoir adroddiad.

Credwn hyn oherwydd:

a. pa mor ddifrifol yw'r trosedd a pha ddedfryd y gallech ei derbyn amdano [a/neu]

b. eich cofnod troseddol, a'ch cefndir [a/neu]

c. cawsoch fechnïaeth o'r blaen ac ni wnaethoch ufuddhau iddi [a/neu]

d. oherwydd cryfder y dystiolaeth yn eich erbyn [a/neu]

e. oherwydd y gallech ymddwyn mewn ffordd a allai achosi, neu wneud i ..... [rhowch fanylion yr unigolyn cysylltiedig] feddwl y gallech achosi niwed iddynt [a/neu]

f. [unrhyw reswm perthnasol arall – rhowch fanylion.]

Cyhuddir chi o drosedd sy'n cario dedfryd o garchar ac rydym yn fodlon bod posibilrwydd gwirioneddol y gallech dderbyn dedfryd o'r fath.

Mae gennych hanes diweddar o ddianc tra oeddech ar remand yn y ddalfa a dywedir bod y trosedd hwn wedi'i gyflawni tra oeddech ar remand o'r fath. [a/neu] Mae'r trosedd hwn, ynghyd ag eraill y cafwyd chi'n euog ohonynt, yn dangos hanes diweddar o gyflawni troseddau sy'n cario dedfryd o garchar tra oeddech ar fechnïaeth neu ar remand yn y ddalfa oherwydd .....

Mae angen eich remandio i lety cadw ieuenctid [i amddiffyn y cyhoedd rhag marwolaeth neu niwed difrifol gennych] [i'ch atal rhag cyflawni troseddau pellach sy'n cario dedfryd o garchar] oherwydd .....

Remandio i lety cadw ieuenctid, 2il gyfres o amodau (pobl ifanc 12-17 oed, troseddau diannod gyda'r opsiwn i garcharu)

Rydym yn eich remandio i lety cadw ieuenctid tan ..... Tan hynny byddwch yn gyfrifoldeb / derbyn gofal gan ..... [rhowch fanylion yr awdurdod lleol dynodedig].

Nid ydym yn rhoi mechnïaeth i chi oherwydd:

1. **mae seiliau sylweddol dros gredu y byddwch yn cyflawni trosedd ar fechnïaeth oherwydd cafodd y trosedd hwn ei gyflawni tra oeddech ar fechnïaeth** [a/neu]
2. **mae seiliau sylweddol dros gredu y byddwch yn cyflawni trosedd sy'n debygol o achosi, neu wneud i .....** [rhowch fanylion yr unigolyn cysylltiedig] **ofni cael anaf corfforol neu feddyliol** [a/neu]
3. **credwn na ddowch yn ôl i'r llys oherwydd eich methiant blaenorol i wneud hynny** [a/neu]
4. **cawsoch eich rhyddhau'n flaenorol ar fechnïaeth amodol ac ni wnaethoch gadw at yr amodau hynny ac mae gennym seiliau sylweddol dros gredu:**
   - (a) **na ddowch yn ôl i'r llys** [a/neu]
   - (b) **y byddwch yn cyflawni trosedd** [a/neu]
   - (c) **y byddwch yn ymyrryd â thystion neu'n rhwystro cwrs yr achos** [a/neu]

5. rydym yn fodlon y dylid gwrthod er eich lles eich hun [a/neu]
6. rydych eisoes yn garcharor yn y carchar [a/neu]
7. rydym yn fodlon nad oes gennym ddigon o wybodaeth i benderfynu a ddylid eich rhyddhau neu beidio.

Cyhuddir chi o drosedd sy'n cario dedfryd o garchar ac rydym yn fodlon bod posibilrwydd gwirioneddol y gallech dderbyn dedfryd o'r fath.

Mae gennych hanes diweddar o ddianc tra oeddech ar remand yn y ddalfa a dywedir bod y trosedd hwn wedi'i gyflawni tra oeddech ar remand o'r fath. [a/neu] Mae'r trosedd hwn, ynghyd ag eraill y cafwyd chi'n euog ohonynt, yn dangos hanes diweddar o gyflawni troseddau sy'n cario dedfryd o garchar tra oeddech ar fechnïaeth neu ar remand yn y ddalfa oherwydd .....

Mae angen eich remandio i lety cadw ieuenctid [i amddiffyn y cyhoedd rhag marwolaeth neu niwed difrifol gennych] [i'ch atal rhag cyflawni troseddau pellach sy'n cario dedfryd o garchar] oherwydd

.....

Anfon am dreial (A.51 Deddf Troseddu ac Anrhefn 1998)

Rydych yn cael eich anfon am dreial yn Llys y Goron sy'n eistedd yn ..... am y troseddau canlynol:

- [Nodwch y troseddau ditiadwy'n unig yn gyntaf.]
- [Nodwch unrhyw droseddau diannod neu neillffordd cysylltiedig.]

Byddwch yn mynd yno ar ..... ar gyfer [gwrandawiad rhagarweiniol] [gwrandawiad pledio a rheoli achos] [gwrandawiad paratoi ar gyfer treial a phledio].

[Delio â mechnïaeth/remand, fel sy'n briodol]

[Ar gyfer mechnïaeth ddiamod, gweler tudalen 26]

[Ar gyfer mechnïaeth amodol, gweler tudalen 27]

[Ar gyfer remandio yn y ddalfa cyn collfarnu (troseddau ditiadwy a neillffordd) gweler tudalen 29]

[Dalier sylw: Rhaid i'r unigolyn a gyhuddir o lofruddiaeth gael ei remandio yn y ddalfa i ymddangos gerbron Llys y Goron cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac ym mhob achos o fewn 48 awr i ddyddiad yfory. Ac eithrio dyddiau Sadwrn a Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith a Gwyliau Banc.]

Traddodi ar gyfer dedfryd

Traddodir chi i Lys y Goron sy'n eistedd yn ..... ar gyfer dedfrydu. Mae'r trosedd(au) mor ddifrifol fel bod angen mwy o gosb nag y gallwn ni ei rhoi.

[Lle bo'n berthnasol.] **Ar yr un pryd, ymdrinnir hefyd â'r troseddau canlynol gan Lys y Goron .....**

[Delio â mechnïaeth/remand, fel sy'n briodol]

[Ar gyfer mechnïaeth ddiamod, gweler tudalen 26]

[Ar gyfer mechnïaeth amodol, gweler tudalen 27]

[Ar gyfer remandio yn y ddalfa ar ôl collfarnu (troseddau ditiadwy a neillffordd) gweler tudalen 29b]

Gofynion hysbysu (gohirio)

Cafwyd chi'n euog o drosedd rhywiol. O fewn tri diwrnod [i'ch rhyddhau] rhaid i chi fynd i orsaf heddlu a dweud wrthynt:

- eich enw llawn, gan gynnwys pob enw arall y byddwch efallai'n eu defnyddio
- eich dyddiad geni
- eich rhif Yswiriant Gwladol
- manylion eich cyfrif banc, eich cardiau credyd a debyd, eich pasbort a'ch dogfen adnabod
- eich prif gyfeiriad ac unrhyw gyfeiriadau eraill y byddwch efallai'n byw ynddynt. Os nad oes gennych brif gyfeiriad, bydd rhaid i chi ddarparu, bob 7 diwrnod, gyfeiriad neu leoliad yn y DU lle gellir dod o hyd i chi'n rheolaidd. Mae'n rhaid i chi hefyd ddweud wrth yr heddlu os byddwch yn aros mewn cyfeiriad y mae unrhyw un o dan 18 oed yn byw ynddo.

Os newidiwch eich enw neu os defnyddiwch gyfeiriad am fwy na saith diwrnod mewn blwyddyn, rhaid i chi ddweud wrth yr heddlu o fewn tri diwrnod iddo ddigwydd.

Os ydych yn bwriadu teithio dramor, bydd rhaid i chi ddweud wrth yr heddlu am y daith 7 diwrnod ymlaen llaw, waeth beth fo hyd y daith.

Os na rowch y wybodaeth gywir i'r heddlu ar amser, byddwch yn cyflawni trosedd a gallech gael eich anfon i'r carchar.

Byddwch yn cael eich dedfrydu am y trosedd(au) ar ..... Pryd hynny cewch wybod am ba hyd y bydd y gofynion hyn yn para.

[Delio â mechnïaeth/remand, fel sy'n briodol]

[Ar gyfer mechnïaeth ddiamod, gweler tudalen 26]

[Ar gyfer mechnïaeth amodol, gweler tudalen 27]

[Ar gyfer remandio yn y ddalfa ar ôl collfarnu (troseddau ditiadwy a neillffordd) gweler tudalen 29b]

Peidiwch â gadael adeilad y llys tan fydd gennych hysbysiad ysgrifenedig o beth ddylech ei wneud.

Gofynion hysbysu (wrth ddedfrydu)

Cawsoch eich collfarnu a'ch dedfrydu am drosedd(au) rhywiol a restrir yn Atodlen 3 o'r Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003. O fewn tri diwrnod [i'ch rhyddhau] rhaid i chi hefyd fynd i orsaf heddlu i ddweud wrthynt:

- eich enw llawn, gan gynnwys pob enw arall y byddwch efallai'n eu defnyddio
- eich dyddiad geni
- eich rhif Yswiriant Gwladol
- manylion eich cyfrif banc, eich cardiau credyd a debyd, eich pasbort a'ch dogfen adnabod
- eich prif gyfeiriad ac unrhyw gyfeiriadau eraill y byddwch efallai'n byw ynddynt. Os nad oes gennych brif gyfeiriad, bydd rhaid i chi ddarparu, bob 7 diwrnod, gyfeiriad neu leoliad yn y DU lle gellir dod o hyd i chi'n rheolaidd. Mae'n rhaid i chi hefyd ddweud wrth yr heddlu os byddwch yn aros mewn cyfeiriad y mae unrhyw un o dan 18 oed yn byw ynddo.

Os newidiwch eich enw neu os defnyddiwch gyfeiriad am fwy na saith diwrnod mewn blwyddyn, rhaid i chi ddweud wrth yr heddlu o fewn tri diwrnod iddo ddigwydd.

Os ydych yn bwriadu teithio dramor, bydd rhaid i chi ddweud wrth yr heddlu am y daith 7 diwrnod ymlaen llaw, waeth beth fo hyd y daith.

Rhaid i chi gadarnhau eich manylion i'r heddlu bob 12 mis, hyd yn oed os ydynt yr un fath.

Rhaid i chi gydymffurfio â'r gofynion hysbysu hyn am ..... blynedd.

Os na rowch y wybodaeth gywir i'r heddlu ar amser, byddwch yn cyflawni trosedd a gallech gael eich anfon i'r carchar.

Peidiwch â gadael adeilad y llys tan fydd gennych hysbysiad ysgrifenedig o beth ddylech ei wneud.

Gorchymyn hysbysu (troseddau a gyflawnwyd y tu allan i'r DU)

Rydych wedi cyflawni trosedd(au) rhywiol y tu allan i'r DU. Pe byddech wedi cyflawni'r trosedd yn y DU byddech wedi gorfod hysbysu'r heddlu o bethau penodol.

Felly, rydym yn gwneud gorchymyn hysbysu am ..... blynedd.

O fewn tri diwrnod [i'ch rhyddhau] rhaid i chi hefyd fynd i orsaf heddlu ..... a dweud wrthynt:

- eich enw llawn, gan gynnwys pob enw arall y byddwch efallai'n eu defnyddio
- eich dyddiad geni
- eich rhif Yswiriant Gwladol
- manylion eich cyfrif banc, eich cardiau credyd a debyd, eich pasbort a'ch dogfen adnabod
- eich prif gyfeiriad ac unrhyw gyfeiriadau eraill y byddwch efallai'n byw ynddynt. Os nad oes gennych brif gyfeiriad, bydd rhaid i chi ddarparu, bob 7 diwrnod, gyfeiriad neu leoliad yn y DU lle gellir dod o hyd i chi'n rheolaidd. Mae'n rhaid i chi hefyd ddweud wrth yr heddlu os byddwch yn aros mewn cyfeiriad y mae unrhyw un o dan 18 oed yn byw ynddo.

Os newidiwch eich enw neu os defnyddiwch gyfeiriad am fwy na saith diwrnod mewn blwyddyn, rhaid i chi ddweud wrth yr heddlu o fewn tri diwrnod iddo ddigwydd.

Rhaid i chi gadarnhau eich manylion i'r heddlu bob 12 mis, hyd yn oed os ydynt yr un fath.

Rhaid i chi gydymffurfio â'r gofynion hysbysu hyn am ..... blynedd.

Os na rowch y wybodaeth gywir i'r heddlu ar amser, byddwch yn cyflawni trosedd a gallech gael eich anfon i'r carchar.

Peidiwch â gadael adeilad y llys tan fydd gennych hysbysiad ysgrifenedig o beth ddylech ei wneud.

Gorchymyn risg rhywiol

Rydym yn gwneud gorchymyn risg rhywiol am gyfnod o .....

Rydych wedi gwneud rhywbeth oedd yn rhywiol ei natur. Mae angen amddiffyn y cyhoedd rhag cael niwed rhywiol gennych.

Am y ..... blynedd nesaf ni ddylech .....

[Nodwch yn yr *union* dermau pa waharddiadau yr ydych yn eu gosod ar sail ymddygiad y diffynnydd.]

[Yr unig waharddiadau y gellir eu gosod yw rhai sydd eu hangen i amddiffyn y cyhoedd rhag cael niwed rhywiol gan y diffynnydd. Lle gwaherddir teithio dramor, rhaid i'r llys orchymyn bod unrhyw basbort yn cael ei ildio.]

Os torrwch y gorchymyn hwn, byddwch yn cyflawni trosedd difrifol a gallech orfod mynd i'r carchar.

Mae'n ofynnol i ni eich hysbysu y bydd yr Awdurdod Diogelu Annibynnol yn eich gwahardd rhag gweithio gyda phlant a / neu oedolion agored i niwed.

Gorchymyn atal niwed rhywiol

Rydym yn gwneud gorchymyn atal niwed rhywiol am gyfnod o .....

Cawsoch eich dedfrydu am drosedd(au) rhywiol ac mae angen amddiffyn y cyhoedd rhag cael niwed rhywiol gennych.

Mae hyn yn golygu, am y ..... blynedd nesaf, na ddylech .....

[Nodwch yn yr *union* dermau pa waharddiadau yr ydych yn eu gosod ar sail ymddygiad y diffynnydd.]

[Yr unig waharddiadau y gellir eu gosod yw rhai sydd eu hangen i amddiffyn y cyhoedd rhag cael niwed rhywiol gan y diffynnydd. Lle gwaherddir teithio dramor, rhaid i'r llys orchymyn bod unrhyw basbort yn cael ei ildio.]

Os torrwch y gorchymyn hwn, byddwch yn cyflawni trosedd difrifol a gallech orfod mynd i'r carchar.

Peidiwch â gadael adeilad y llys tan fydd gennych gopi o'r gorchymyn.

Troseddau rhywiol
(A.1 Deddf Troseddau Rhywiol (Diwygio) 1992)

Mae'n drosedd cyhoeddi neu ddarlledu unrhyw ddeunydd sy'n debygol o adnabod y dioddefwr honedig. Bydd y cyfyngiad awtomatig hwn mewn grym drwy gydol oes y dioddefwr honedig, oni chyfarwyddir fel arall gan y llys hwn neu Lys y Goron.

Cyfyngiadau ar adrodd ar gyfer plant a phobl ifanc mewn achosion troseddol (A.45 Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999)

Ni ddylech ddatgan unrhyw fanylion sy'n debygol o arwain aelodau o'r cyhoedd i adnabod [y diffynnydd] [y dioddefwr honedig] [y tyst] fel unigolyn sy'n ymwneud â'r achos. Mae hyn yn cynnwys ei enw, ei gyfeiriad, ei ysgol, ei sefydliad addysgol, ei waith neu unrhyw beth arall a allai ddatgelu pwy ydyw, yn cynnwys unrhyw lun llonydd neu symudol.

Mae cyhoeddi'n cynnwys unrhyw gyfryngau printiedig neu ddarlledu'n ogystal â gwybodaeth a gyhoeddir ar-lein, gan gynnwys gwefannau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook a Twitter.

Gosodwn y cyfyngiad hwn oherwydd .....

Bydd y gorchymyn hwn yn para tan fydd yr unigolyn dan sylw'n 18 oed neu hyd nes y gwneir gorchymyn arall.

Mae torri'r gorchymyn yn drosedd.

Cyfyngiadau ar adrodd ar gyfer plant a phobl ifanc mewn achosion di-droseddol (A.39 Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933)

Ni ddylech ddatgan unrhyw fanylion sy'n debygol o arwain aelodau o'r cyhoedd i adnabod [y diffynnydd] [y dioddefwr honedig] [y tyst] fel unigolyn sy'n ymwneud â'r achos. Mae hyn yn cynnwys ei enw, ei gyfeiriad, ei ysgol, ei sefydliad addysgol, ei waith neu unrhyw beth arall a allai ddatgelu pwy ydyw, yn cynnwys unrhyw lun llonydd neu symudol.

Mae cyhoeddi'n cynnwys unrhyw gyfryngau printiedig neu ddarlledu'n ogystal â gwybodaeth a gyhoeddir ar-lein, gan gynnwys gwefannau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook a Twitter.

Gosodwn y cyfyngiad hwn oherwydd ……..

Bydd y gorchymyn hwn yn para tan fydd yr unigolyn dan sylw'n 18 oed neu hyd nes y gwneir gorchymyn arall.

Mae torri'r gorchymyn yn drosedd.

Cyfyngiadau gydol oes ar adrodd yn achos dioddefwyr a thystion o dan 18 oed (A.45A Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999)

Ni ddylech ddatgan unrhyw fanylion sy'n debygol o arwain aelodau o'r cyhoedd i adnabod [y diffynnydd] [y dioddefwr honedig] [y tyst] fel unigolyn sy'n ymwneud â'r achos. Mae hyn yn cynnwys ei enw, ei gyfeiriad, ei ysgol, ei sefydliad addysgol, ei waith neu unrhyw beth arall a allai ddatgelu pwy ydyw, yn cynnwys unrhyw lun llonydd neu symudol.

Mae cyhoeddi'n cynnwys unrhyw gyfryngau printiedig neu ddarlledu'n ogystal â gwybodaeth a gyhoeddir ar-lein, gan gynnwys gwefannau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook a Twitter.

Rydym yn fodlon y byddai'r ofn neu drallod a fyddai'n cael ei achosi i'r unigolyn dan sylw drwy eu hadnabod i aelodau o'r cyhoedd yn debygol o amharu ar ansawdd eu tystiolaeth neu lefel eu cydweithrediad yn yr achos.

Gosodwn y cyfyngiad hwn oherwydd ……..

Bydd y gorchymyn hwn yn para gydol oes yr unigolyn dan sylw.

Mae torri'r gorchymyn yn drosedd.

Osgoi risg o ragfarn sylweddol i weinyddu cyfiawnder (A.4 Deddf Dirmyg Llys 1981)

Rydym yn gorchymyn bod cyhoeddi'r achos hwn [achos arall i ddod / ar fin cael ei gynnal] yn cael ei ohirio tan .....

Ystyriwn fod risg o ragfarn sylweddol i weinyddu cyfiawnder oherwydd .....

Dal gwybodaeth yn ôl oddi wrth y cyhoedd er budd gweinyddu cyfiawnder (A.11 Deddf Dirmyg Llys 1981)

Rydym yn caniatáu i [**enw**] [**cyfeiriad**] [manylion eraill] **gael ei ddal yn ôl oddi wrth y cyhoedd yn yr achos hwn oherwydd .....**

Felly, gwnawn y cyfarwyddiadau canlynol:

- [Nodwch y pwrpas penodol dros wneud y gorchymyn.
- Nodwch union sgôp y gorchymyn.
- Nodwch union hyd y gorchymyn a phryd y bydd yn dod i ben.]

Rhwymo

Rydym yn meddwl am eich rhwymo i gadw'r heddwch.

Mae hyn yn golygu, am gyfnod o ..... mis, bod yn rhaid i chi gadw'r heddwch [yn enwedig tuag at .....].

Rhaid i chi ymatal rhag ..... [nodwch yr ymddygiad neu'r gweithgaredd y dylid ymatal rhag ei gyflawni].

Os torrwch y gorchymyn bydd yn rhaid i chi dalu hyd at £.....

A ydych yn cytuno i gael eich rhwymo?

Rydych wedi eich rhwymo am y swm o £..... am ..... mis

Gorchymyn cau allan – eiddo trwyddedig

Roedd eich trosedd yn cynnwys [bygythiadau o] drais mewn tafarn. Felly rydych wedi eich gwahardd rhag mynd i ..... am y ..... mis nesaf oni bai fod y landlord yn rhoi caniatâd penodol i chi.

Os torrwch y gorchymyn, byddwch yn cyflawni trosedd a gallech fynd i'r carchar.

Gorchymyn gwahardd pêl-droed

Rydym yn eich gwahardd rhag mynd i unrhyw safle i'r pwrpas o fynychu unrhyw gêm bêl-droed reoledig yn y DU, am gyfnod o ..... Mae hyn er mwyn helpu i atal trais neu anrhefn sy'n gysylltiedig â gemau pêl-droed.

O fewn 5 diwrnod i [heddiw] [gael eich rhyddhau o'r ddalfa] rhaid i chi adrodd i orsaf heddlu ..... Bydd y swyddog yn rhoi gwybod i chi'n union beth sy'n rhaid i chi ei wneud.

Byddwch yn cael eich cyfarwyddo gan yr Awdurdod Gorchmynion Gwahardd Pêl-droed i ildio eich pasbort i orsaf heddlu pan fydd gemau pêl-droed penodol yn cael eu chwarae y tu allan i'r DU.

[Lle bo'n berthnasol.] **Rhaid i chi gydymffurfio â'r gofyniad / gofynion ychwanegol canlynol .....**

[Nodwch yn yr *union* dermau y gallent gynnwys:

- mynychu gorsaf heddlu i gael tynnu eu llun
- unrhyw ofyniad arall sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y gorchymyn yn effeithiol.]

Byddwch yn cyflawni trosedd os torrwch unrhyw un o'r gofynion a gallech orfod mynd i'r carchar.

Ar ôl i chi gwblhau dwy ran o dair o'r gorchymyn, gallwch ofyn i'r llys ystyried dod â'r gorchymyn i ben.

Ydych chi'n deall?

Peidiwch â gadael adeilad y llys tan fydd gennych gopi o'r gorchymyn.

Gorchymyn rhianta (methu ag anfon plentyn i'r ysgol)

Rydym yn gwneud gorchymyn rhianta am ..... mis. Mae hyn er mwyn eich helpu i beidio â chyflawni trosedd arall o fethu ag anfon eich plentyn neu blant i'r ysgol.

Y swyddog cyfrifol yw ..... a bydd ef neu hi'n rhoi cyfarwyddiadau i chi ar y sesiynau sy'n rhaid i chi eu mynychu i'ch helpu i ofalu, diogelu a rhoi cymorth gwell i'ch plentyn neu blant. Rhaid i chi fynychu'r rhain ac ufuddhau i'r cyfarwyddyd. Os na wnewch hyn, gallech orfod dod yn ôl i'r llys a thalu dirwy.

[Os oes unrhyw ofynion pellach, nodwch beth ydynt yma.]

Gallwch chi neu'r swyddog ofyn am adolygiad o'r gorchymyn hwn ar unrhyw adeg.

Ydych chi'n deall?

Gorchymyn atal

Rydym yn gwneud gorchymyn atal i'r pwrpas o amddiffyn ..... [am gyfnod o ....] [hyd nes y gwneir gorchymyn pellach].

Yn ystod y cyfnod hwn ni ddylech .....

[Nodwch yn yr *union* dermau beth na all y diffynnydd ei wneud.]

Os gwnewch unrhyw un o'r pethau hyn, byddwch yn cyflawni trosedd difrifol a gallech fynd i'r carchar.

Ydych chi'n deall?

Gorchymyn Difa Amodol (Cŵn a Waherddir - Deddf Cŵn Peryglus 1991)

Rydym yn gwneud gorchymyn difa amodol ar gyfer ..... [rhowch enw / disgrifiad o'r ci neu gŵn].

Rydym yn fodlon nad yw ..... [rhowch enw / disgrifiad o'r ci neu gŵn] **yn berygl i ddiogelwch y cyhoedd.**

Mae hyn oherwydd .....

[Rhowch eich rhesymau ar sail y rhestr ganlynol:

- Y digwyddiad – faint o niwed a achoswyd gan ymddygiad y ci.
- Ymddygiad blaenorol y ci – ai digwyddiad unwaith yn unig oedd hwn neu a gafwyd rhybuddion neu ddigwyddiadau o'r blaen?
- Cymeriad y perchennog – ydy'r perchennog yn unigolyn addas a phriodol i fod yn berchen ar y ci arbennig hwn?]

Mae'r ci hwn yn fath sydd wedi'i wahardd a rhaid i chi nawr gael tystysgrif eithrio. Rhaid i chi wneud hyn o fewn dau fis i wneud y gorchymyn hwn. Byddwch yn cael eich hysbysu o'r camau sydd angen i chi eu cymryd i gael tystysgrif; bydd hyn yn cynnwys bod y ci (cŵn) yn cael ei ysbaddu, yn cael microsglodyn a'i yswirio.

Byddwch hefyd yn cael eich hysbysu o unrhyw ofynion ychwanegol ar y dystysgrif.

Pan fyddwch mewn man cyhoeddus rhaid i chi hefyd gadw penffrwyn ar y ci neu gŵn a rhaid i unigolyn 16+ oed ei gadw'n dynn ar dennyn.

Os methwch â chydymffurfio â'r gorchymyn hwn, os methwch â chael tystysgrif eithrio o fewn yr amser, neu os methwch â chydymffurfio â'r gofynion ar y dystysgrif, byddwch yn cyflawni trosedd. Gallai hyn arwain at eich anfon i'r carchar, gellir atafaelu a difa'r ci neu gŵn a gallech gael eich gorchymyn i dalu costau eu cadw hyd nes y byddant yn cael eu difa, a thalu costau eu difa.

Gorchymyn Difa Amodol (Cŵn heb eu gwahardd - Deddf Cŵn Peryglus 1991)

Rydym yn gwneud gorchymyn difa amodol ar gyfer ..... [rhowch enw / disgrifiad o'r ci neu gŵn].

Rydym yn fodlon nad yw ..... [rhowch enw / disgrifiad o'r ci neu gŵn] **yn berygl i ddiogelwch y cyhoedd.**

Mae hyn oherwydd .....

[Rhowch eich rhesymau ar sail y rhestr ganlynol:

- Y digwyddiad – faint o niwed a achoswyd gan ymddygiad y ci.
- Ymddygiad blaenorol y ci – ai digwyddiad unwaith yn unig oedd hwn neu a gafwyd rhybuddion neu ddigwyddiadau o'r blaen?
- Cymeriad y perchennog – ydy'r perchennog yn unigolyn addas a phriodol i fod yn berchen ar y ci arbennig hwn?]

Rhaid i chi felly gadw ..... [rhowch enw / disgrifiad o'r ci neu gŵn] **dan reolaeth briodol.**

[Lle bo'n berthnasol.] **Yn ogystal, gosodwn yr amodau canlynol:**

[Nodwch ba un o'r amodau canlynol sydd i'w cymhwyso:

- Pan fydd / fyddant mewn man cyhoeddus, rhaid rhoi penffrwyn ar y ci neu gŵn.
- Pan fyddwch mewn man cyhoeddus rhaid i unigolyn 16+ oed gadw'r ci neu gŵn yn dynn ar dennyn.
- Ni ddylai'r ci neu gŵn fynd i ..... [nodwch yr ardal lle gwaherddir hwynt].
- Os yn gi neu gŵn gwryw, rhaid ei ysbaddu.]

Os nad ydych yn cydymffurfio â'r gorchymyn hwn, gellir atafaelu a difa'r ci neu gŵn a gallech gael eich gorchymyn i dalu costau eu cadw hyd nes y byddant yn cael eu difa, a thalu costau eu difa.

Cadw ci dan reolaeth briodol (Deddf Cŵn 1871)

Rydym yn gwneud gorchymyn bod .....[rhowch enw / disgrifiad o'r ci neu gŵn] yn cael ei gadw / eu cadw dan reolaeth briodol.

Mae hyn oherwydd ..... [rhowch resymau].

[Lle bo'n berthnasol.] **Gosodwn yr amodau canlynol:**

[Nodwch ba fesurau sy'n ofynnol:

- Pan fydd / fyddant mewn man cyhoeddus, rhaid rhoi penffrwyn ar y ci neu gŵn.
- Pan fyddwch mewn man cyhoeddus rhaid i unigolyn 16+ oed gadw'r ci neu gŵn yn dynn ar dennyn.
- Ni ddylai'r ci neu gŵn fynd i .....[nodwch yr ardal lle gwaherddir hwynt].
- Os yn gi neu gŵn gwryw, rhaid ei ysbaddu.
- .....[nodwch unrhyw amod arall.]

Os nad ydych yn cydymffurfio â'r gorchymyn hwn, gellir atafaelu a difa'r ci neu gŵn a gallech gael eich gorchymyn i dalu costau eu cadw hyd nes y byddant yn cael eu difa, a thalu costau eu difa.

Gwaharddiad rhag cadw ci (Deddf Cŵn Peryglus 1991)

Cafwyd chi'n euog o drosedd o dan y Ddeddf Cŵn Peryglus.

Rydym yn gwneud gorchymyn eich bod yn cael eich gwaharddiad rhag cadw ci am gyfnod o ..... mis/blynedd [rhowch hyd y gorchymyn].

Mae hyn oherwydd ..... [rhowch resymau].

Os nad ydych yn cydymffurfio â'r gorchymyn hwn byddwch yn cyflawni trosedd pellach.

Ydych chi'n deall?

Gwaharddiad rhag cadw unrhyw anifail / anifeiliaid o fath(au) penodol (Deddf Lles Anifeiliaid 2006)

Cafwyd chi'n euog o drosedd o dan y Ddeddf Lles Anifeiliaid.

Rydym yn gwneud gorchymyn eich bod yn cael gwahardd rhag [bod yn berchen ar] [cadw] unrhyw [anifail] […… [nodwch y math o anifail]] **am gyfnod o ……** [rhowch hyd y gorchymyn]**.**

Mae hyn oherwydd …… [rhowch resymau]**.**

Os nad ydych yn cydymffurfio â'r gorchymyn hwn byddwch yn cyflawni trosedd pellach.

Ydych chi'n deall?